



Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2011

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2011

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 34(3) Deddf y
Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri
Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran
35(5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2011
Cyflwynwyd gan Weinidogion yr Alban gerbron Senedd yr Alban
14 Gorffennaf 2011
Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 7 Medi 2011

© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2011

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Cewch lawrlwytho'r ddogfen yn
www.official-documents.gov.uk

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn
www.hlf.org.uk

ISBN: 9780102972047

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cyfeirnod: 2431134 07/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu	2
Sylwadau'r rheolwyr	2
Adolygiad ariannol	10
Adroddiad tâl	13
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr	16
Datganiad ar reolaeth fewnol	17
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin a'r Tŷ Arglwyddi a Senedd yr Alban	21
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	23
Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti	24
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	25
Datganiad Llifoedd Arian	26
Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net	26
Nodiadau i'r Cyfrifon	27
Cyfarwyddiadau Polisi	42
Perfformiad Corfforaethol	50
Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn	52
Grantiau a ddyfarnwyd dros £100,000	54
Monitro cyflogaeth	65

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Sylwadau'r rheolwyr

Gwybodaeth gefndir

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei mireinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr CGDG, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill, 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 ('Deddf 1998').

O dan Ddeddf 1993, daeth Ymddiriedolwyr CGDG yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Rhaid i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad yn ddosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer y derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa o'r enw Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i roi ganddo yntau yng CDLG. Mae Ymddiriedolwyr CGDG yn ymgeisio i'r CDLG am gyllid i dalu grantiau a thalu costau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i'r

CDLG ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu'n gysylltiedig â hi. Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr CGDG yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd canran y dyraniad yn ddilynol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Paratowyd y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

Prif weithgareddau

O dan adran 3 a 3a Deddf 1980, gall Ymddiriedolwyr CGDG wneud grantiau a benthyciadau allan o'r Gronfa at ddiben cael, cynnal neu ddiogelu:

- a) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol;
- b) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;
- c) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo prosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth hefyd, ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Ar ôl ymgynghori ag ymgeiswyr posibl, cynghorwyr a chyrrff eraill, sefydlwyd mentrau newydd

pellach – yn ymdrin â grantiau refeniw (i ehangu mynediad yn gyffredinol i'r dreftadaeth), yn ogystal ag ym meysydd archaeoleg, trefluniau, technoleg gwybodaeth ac addysg. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddirprwyo penderfyniadau am grantiau Loteri i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Nodau

Mae gennym dri nod craidd ar gyfer CDL, sy'n diffinio'n fras sut yr ydym yn ceisio gwella ansawdd bywyd drwy'r dreftadaeth. Dyma'r nodau craidd:

- diogelu treftadaeth amrywiol y DU er mwyn i genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ei chyrraedd a'i mwynhau;
- helpu mwy o bobl, ac amrywiaeth ehangach o bobl, i gymryd rhan yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau yn ei chylch;
- helpu pobl i ddysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth pobl eraill.

Fel sefydliad, ymgeisiwn i fod yn gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol ym mhob peth a wnawn. Hefyd, mae eglurder, blaenoriaethu, doethineb, awdurdod cyfrifol ac atebolrwydd yn egwyddorion craidd i ni. Maent yn llywio ein hymagwedd at ariannu, a'r modd y gweithiwn gyda chwsmeriaid a chydweithwyr. Ein nod yw cael ein hadnabod ym mha le bynnag y gweithiwn, a hynny drwy arfer a chyflwyniad cyson, a chynnal ar yr un pryd yr hyblygrwydd i ymateb i wahaniaethau ac anghenion trwy ein timau lleol ar draws y DU.

Offerynnau Ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' (IFRS 7) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, yn creu neu'n newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, ond

gall fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

Risg hylifedd

Yn 2010–11, roedd £214miliwn (96%) o incwm CDL yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd gweddill yr incwm yn deillio o adenillion buddsoddi o'r balans sy'n cael ei ddal gyda CDLG sef £3miliwn (1%), ynghyd â llog banc bach ac incwm amrywiol (3%). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu hymrwymiaid caled (h.y. contractau grant wedi'u llofnodi) a'u symiau taladwy eraill yn fwy na gwerth y cyllid yn yr CDLG ar 31 Mawrth 2011. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod CDL yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yn yr CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliadau grant yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi hysbysu'r Ymddiriedolwyr nad ydynt yn bwriadu newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, mae'r DCMS yn cynyddu'r gyfran y mae CDL'n ei dosbarthu ar gyfer treftadaeth i 20% o fis Ebrill 2012. Mae Ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth hirdymor ar gyfer dyfarnu grantiau er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau CDL yn unol â'i hasedau, a'u bod yn gallu bodloni'u hymrwymiaid hyd at 2019. Felly, hyd yn oed pe byddai incwm y Loteri yn gostwng yn yr hirdymor, byddai'r Ymddiriedolwyr yn gallu addasu cyllidebau grant blynyddol i ymdopi â hynny.

Risg marchnad a risg cyfradd llog

Mae asedau ariannol CDL wedi'u buddsoddi yng CDLG, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reolaeth dros sut y buddsoddir y cyllid hwn. Ar sail y ddau reswm hyn, nid yw CDL wedi cynnal dadansoddiad o sensitifrwydd risgiau marchnad. Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, £367miliwn oedd gwerth marchnad ein buddsoddiadau

yn yr CDLG. Enillodd y cyllid yn yr CDLG 1.13% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Caiff balansau arian parod, a dynnir i lawr o'r CDLG i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd newidiol sydd ar gael yn ddiymdroi, a oedd yn cario cyfradd llog o 0.35% yn y flwyddyn. Mae'r gostyngiad cyflym mewn cyfraddau llog marchnad yn 2008 wedi cael effaith sylweddol ar adenillion, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £2.8miliwn. Ystyria'r Ymddiriedolwyr nad yw CDL yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol CDL.

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Balansau arian parod		
- sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol	2,847	3,604
- sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog	367,218	378,977
	370,065	382,581

Risg credyd

Mae symiau derbyniadwy CDL yn cynnwys rhagdaliadau ar brydles eiddo yn bennaf, balansau o fewn y llywodraeth ac un benthyciad i sefydliad treftadaeth. Gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri y mae'r balansau o fewn y llywodraeth yn bennaf, ac ad-dalwyd pob un ohonynt neu cytunwyd arnynt erbyn amser llofnodi'r cyfrifon. Mae'r benthyciad i sefydliad treftadaeth wedi'i ad-dalu yn unol â'r amserlen a gytunwyd ar gyfer taliadau. Nid ystyria'r Ymddiriedolwyr fod risg sylweddol y bydd y sefydliad treftadaeth yn methu ad-dalu'r ddyled; cyfradd llog o ddim sydd i'r benthyciad. Nid ystyria'r Ymddiriedolwyr fod CDL yn agored i risg credyd sylweddol.

Risg arian tramor

Nid yw CDL yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

Asedau ariannol yn ôl categori

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Asedau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol		
- asedau anghyfredol	2,083	2,168
- buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu	367,218	378,977
- arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	2,847	3,604
- benthyciadau a symiau derbyniadwy	4,152	1,232
	376,300	385,981

Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol		
- darpariaeth	35	0
- rhwymedigaethau ariannol eraill		
• ymrwymadau grant	554,485	538,737
• symiau taladwy gweithredol	623	1,080
• symiau taladwy eraill	333	335
• cronïadau	1,353	841
	556,829	540,993

Gwerthoedd Teg

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CDL ar 31 Mawrth 2011.

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2011	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Arian parod ¹	2,847	2,847
Buddsoddiadau ²	367,570	367,218
Symiau Derbyniadwy ³	4,152	4,152
	374,569	374,217

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2010	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Arian parod	3,604	3,604
Buddsoddiadau	379,607	378,977
Symiau Derbyniadwy	1,232	1,232
	384,443	383,813

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2011

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Ymrwymadau grant ⁴	554,485	554,485
Symiau taladwy gweithredol ⁵	623	623
Symiau taladwy eraill ⁵	333	333
Croniadau ⁵	1,353	1,353
Darpariaeth ⁶	35	35
	556,829	556,829

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2010

	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Ymrwymadau grant	538,737	538,737
Symiau taladwy gweithredol	1,080	1,080
Symiau taladwy eraill	335	335
Croniadau	841	841
	540,993	540,993

Sail prisiad teg

- 1 Y ffigur yma yw gwerth adneuron gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.
- 2 Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n darparu manylion i'r Ymddiriedolwyr am gost llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.
- 3 Ni thbyr bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai hirdymor ac felly nid oes unrhyw gyfradd llog wedi'i chymhwyso i'r benthyciad.
- 4 Er y datgelwn £333miliwn o ymrwymadau grant fel rhai nad ydynt i'w talu tan ar ôl blwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae rhwymedigaeth contractiol gan Ymddiriedolwyr i dalu'r symiau hyn ar alwad, yn amodol ar gontact, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.
- 5 Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn termau contractiol arferol, 14-30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg.
- 6 Nid oes angen addasu'r gwerth teg oherwydd cymeradwydd y rhwymedigaeth ar lefel o £35,000 cyn llofnodi'r cyfrifon.

Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Mewn llai na blwyddyn	556,829	540,993
Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd	0	0
Mewn dwy i bum mlynedd	0	0
Mewn mwy na phum mlynedd	0	0
	556,829	540,993

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn ac mewn mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw wedi'i seilio ar brofiad blaenorol o symiau wedi'u tynnu i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys rhaniad o'r fath. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon hawlio eu grant cyfan yn y

12 mis nesaf pe bai eu prosiectau'n cael eu cwblhau yn y cyfnod hwnnw. Felly, rydym wedi bod yn ofalus ac wedi dangos aeddfedrwydd rhwymedigaethau i gyd o fewn blwyddyn.

Datblygiadau'r dyfodol

Mae amcanestyniadau y DCMS o'r incwm tebygol o'r Loteri Genedlaethol yn awgrymu y bydd adenillion yn parhau ar eu lefel uchel gyfredol. O ganlyniad i hyn a'r gyfran uwch o arian y mae'r llywodraeth yn ei ddyrannu ar gyfer achosion da, cynyddodd yr Ymddiriedolwyr y gyllideb sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau grant yn 2011-12 o £205miliwn i £255miliwn. Mae cynlluniau i godi lefel y dyfarniad i £305miliwn yn y flwyddyn ganlynol. Yn amlwg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro incwm yn fanwl dros y 12 mis nesaf ac yn diwygio cyllidebau grantiau yn y dyfodol fel bo'n briodol.

Byddwn yn ceisio cynyddu'r arian rydym yn ei ddyrannu heb gynyddu ein costau gweinyddol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hwyrach y bydd angen rheoli mwy o adnoddau yn sgil cymhlethdod cynyddol rhai o'r ceisiadau a gyflwynwyd a'r trafferthion y mae grantïon yn ei gael wrth ganfod arian mewn partneriaeth yn yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd. Yn ystod 2010-11, pennodd y llywodraeth ddau darged i leihau cyfran ein hincwm sy'n cael ei wario ar bethau nad ydynt yn ymwneud â grantiau. Yn ystod 2011-12, bydd rheolwyr yn cadw llygad barcud ar gostau gweinyddol a lefelau incwm er mwyn i ni gyflawni'r targedau hyn. Bydd sawl un o brydlesau ein swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol yn dod i ben yn 2011-12 a bydd rheolwyr yn manteisio ar y cyfle hwn i gwtogi ar gostau ein hadeiladau. Rydym hefyd wedi llwyddo i ganfod tenant ar gyfer llawr cyntaf ein swyddfa yn Llundain. Mae'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd wedi llofnodi isbrydles ac fe symudon nhw i mewn ar ddechrau 2011-12.

Tua diwedd 2010-11, aethom ati i ddechrau'r broses ymgynghori ar gyfer ein (pedwerydd) cynllun strategol nesaf. Daw hwn i rym yn 2013-14 ac yn para tan 2019. Yn ystod y

flwyddyn nesaf, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn newid ein harferion gwaith i fodloni'r dreftadaeth.

Ymgynghori â chyflogeion

Mae natur gweithrediadau CGDG yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso a monitro prosiectau ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau – drwy grynodedbau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn y briff craidd misol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol – y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff. Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff yn bodoli. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac yn trafod materion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

Cyfle cyfartal

Fel cyflogwr, mae CGDG yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'r Gronfa yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 4% (2009–10: 4%) o'n gweithlu yn bobl ag anableddau. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol.

Symiau sy'n daladwy

Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon Lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell CBI, sef talu pob bil dilys ymhen 30 diwrnod. Yn 2010–11, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd wyth niwrnod gwaith (2009–10: 8 niwrnod). Talwyd dros 96% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr (2009–10: 96%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwy – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i fynegi yn nhermau diwrnodau. Ar 31 Mawrth 2011, y ffigur oedd 29 diwrnod (2009–10: 41 diwrnod).

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

Cofrestr buddiannau

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blyneddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau Loteri'r Ymddiriedolwyr.

Rhanddeiliaid allweddol
DCMS yw prif randdeiliaid CDL. Yr adran hon sydd hefyd yn rheoli CDLG sy'n buddsoddi'r arian a geir o'r Loteri Genedlaethol. English Heritage yw'r rhanddeiliad allweddol arall, sef corff sy'n prosesu asesiadau ar ein rhan ar gyfer rhaglen grant (rhaglen Grantiau Atgyweirio ar gyfer Mannau Addoli yn Lloegr).

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd
Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2011 hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu, y mae angen eu dwyn i sylw'r darllenydd. Awdurdodwyd y cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 8 Gorffennaf 2011, sef y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Polisiâu amgylcheddol ac adroddiadau cynaliadwyedd
Bydd y Trysorlys yn pennu gofyniad ar holl gyrrff y sector cyhoeddus i gynhyrchu adroddiadau cynaliadwyedd ar gyfer blynyddoedd ariannol o 2011–12. Fodd bynnag, mae'r Trysorlys yn dymuno i 2010–11 fod yn flwyddyn 'rhediad ffug' er mwyn gosod sefyllfa feincnod ar gyfer gallu mesur ein perfformiad. Felly, o 1 Ebrill 2010, mae CGDG wedi cofnodi ei ôl-troed carbon o ran teithio busnes, gwastraff a gynhyrchwyd a'r defnydd o ynni. Fodd bynnag, byddwn yn gallu gwella dros amser ar gywirdeb cofnodi ôl-troed carbon CGDG, ac ni ellir cymryd yr ymgais gyntaf fel llinell sylfaen ddibynadwy felly.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld fawr o bwynt dyrannu'u hadroddiadau cynaliadwyedd rhwng ein gweithgareddau cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

Trosolwg yn ymdrin â pherfformiad yn ystod y flwyddyn a chynlluniau i'r dyfodol
Hon yw'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r wybodaeth, ac yn anochel mae lle i wella cywirdeb y data; er enghraifft, nid yw'r un o'n landlordiaid ar hyn o bryd yn darparu ffigurau ar gyfer cilowat oriau o nwy neu drydan a ddefnyddiwyd, ac nid ydynt ychwaith yn

bilio'n ddigon cyflym i ddarparu ffigurau 2010–11.

Yn ystod 2010–11, fe wnaethom osod boeleri newydd ar gyfer gwresogi, a'r oeryddion ar gyfer y system awyru yn ein prif swyddfa yn Llundain. Mae'r cyfarpar newydd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, a disgwyliwn y bydd ein defnydd o ynni'n gostwng.

Yn 2011–12, bydd nifer o brydlesi ein swyddfeydd rhanbarthol yn dod i ben. Wrth geisio prydlesi newydd, byddwn yn sicrhau yr ystyrir effeithlonrwydd ynni'r adeilad.

Tablau gwybodaeth ariannol ac anariannol
Allyriadau nwyon tŷ gwydr

2010–11

Carbon deuocsid cyfwerth a gynhyrchwyd (tunelli)	
– allyriadau ynni uniongyrchol	145
– allyriadau ynni anuniongyrchol	337
– teithio busnes	112

Ynni a ddefnyddiwyd (kwh)	
– allyriadau ynni uniongyrchol	712,243
– allyriadau ynni anuniongyrchol	618,242

Gwariant (£'000)	
– allyriadau ynni uniongyrchol	28
– allyriadau ynni anuniongyrchol	64
– teithio busnes	266

Lleihau a rheoli gwastraff
2010–11

Cyfanswm y gwastraff safonol a grëwyd (tunelli)	20
– yr ailgylchwyd canran ohono	75%

Cyfanswm y gwastraff adeiladu a grëwyd (tunelli)	22
– yr ailgylchwyd canran ohono	55%

Gwariant (£'000)	
– cynghorau	8
– cwmnïau carpio papur	13
– cwmnïau adeiladu	6

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw.

Defnydd o ddŵr

	2010-11
Cyfanswm defnydd (metrau ciwbig)	14,716
Cost (£'000)	19

Nid yw CGDG yn cael ei gynnwys gan y targedau a osodwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn ei *Sustainable Operations on the Government Estate*. Felly, nid ydym wedi cynhyrchu adroddiad ar gynllunio gweithredu bioamrywiaeth na chaffael cynaliadwy.

Ffynonellau data

Allyriadau ynni uniongyrchol

Mae hyn yn ymwneud â nwy a ddefnyddiwyd mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau awyru. Caiff gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn cilowat oriau ei ddeillio o anfonebau gan ein cyflenwyr am y swyddfeydd hynny sydd â mesuryddion ar wahân. Mewn swyddfeydd eraill, mae'r landlord yn codi tâl arnom am gost y nwy a ddefnyddir. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd ar gyfer 2010-11, ac felly rydym wedi defnyddio ffigurau 2009-10 ar gyfer y swyddfeydd hynny. Yn ogystal, nid yw'r landlordiaid hyn yn darparu gwybodaeth am nifer y cilowat oriau a ddefnyddiwyd; rydym wedi amcangyfrif y rhain ar sail y gost a ailgodwyd arnom gan y landlord. Ar gyfer blyneddoddd yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i landlordiaid ddarparu darlenniadau o'n defnydd o nwy, yn ogystal â'r gost. Caiff cilowat oriau eu trosi yn dunelli metrig o gyfwerth carbon deuocsid gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) – Atodiad 1 o *2010 Guidelines to DEFRA/DECC's GHG Conversion Factors for Company Reporting* (<http://archive.defra.gov.uk/environment/business/reporting/pdf/101006-guidelines-ghg-conversion-factors.xls>), Tabl 1c 'Gross Calorific Value Basis'.

Cyfrifwyd y carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer allyriadau o'n oeryddion awyru gan ddefnyddio'r fformwla a nodir yn Atodiad 8 i *2009 Guidelines to DEFRA/DECC's GHG Conversion Factors for Company Reporting* (<http://archive.defra.gov.uk/environment/>

[business/reporting/pdf/20090928-guidelines-ghg-conversion-factors.pdf](http://archive.defra.gov.uk/environment/business/reporting/pdf/20090928-guidelines-ghg-conversion-factors.pdf)).

Allyriadau ynni anuniongyrchol

Mae hyn yn ymwneud â thrydan a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill ac a werthwyd i ni. Caiff gwybodaeth am ddefnydd mewn cilowat oriau ei deillio o anfonebau gan ein cyflenwyr am y swyddfeydd hynny sydd â mesuryddion ar wahân. Mewn swyddfeydd eraill, mae'r landlord yn codi tâl arnom am gost y trydan. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd ar gyfer 2010-11, ac felly rydym wedi defnyddio ffigurau 2009-10 ar gyfer y swyddfeydd sydd heb ddata 2010-11. Yn ogystal, nid yw'r landlordiaid hyn yn darparu gwybodaeth am nifer y cilowat oriau a ddefnyddiwyd; rydym wedi amcangyfrif y rhain ar sail y gost a ailgodwyd arnom gan y landlord. Ar gyfer blyneddoddd yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i landlordiaid ddarparu darlenniadau o'n defnydd o drydan, yn ogystal â'r gost. Caiff cilowat oriau eu trosi yn dunelli metrig o gyfwerth carbon deuocsid gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan DEFRA – Atodiad 3 o *2010 Guidelines to DEFRA/DECC's GHG Conversion Factors for Company Reporting* (gweler uchod am gyfeiriad y wefan), Tabl Cyfartaledd Treigl Grid Blwyddyn 2008 (y flwyddyn ddiweddaraf a oedd ar gael pan baratowyd y cyfrifon hyn).

Teithiau busnes

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwyr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddararu taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill. Gosodwyd y gorchwyl i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu teithiau i gyd. Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi yn dunelli o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio tablau o ffactorau trosi a ddarparwyd gan DEFRA – Atodiad 6 o *2010 Guidelines to DEFRA/DECC's GHG Conversion Factors for Company Reporting* (gweler uchod am gyfeiriad y wefan).

Gwastraff a gynhyrchwyd

Deilliwyd gwastraff mewn tunelli metrig o rai swyddfeydd a brynodd gloriannau ar gyfer pwysu'r holl wastraff a gynhyrchwyd ganddynt. O'r data hwnnw, aethom ati i gyfrifo faint o wastraff a gynhyrchwyd fesul unigolyn, a chymhwyso hynny i staff yn y swyddfeydd eraill. Defnyddiwyd yr un fethodoleg i gyfrifo'r gyfran o wastraff a ailgylchwyd. Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, byddwn yn ystyried ffyrdd i fesur yn gywir faint o wastraff a gynhyrchwyd gan bob un o'r swyddfeydd, er y byddai hynny'n golygu trosi'r cyfaint a ddelir gan dderbynyddion gwastraff yn bwysau, ac mae hynny'n anochel yn annibynadwy gan nad yw eitemau gwastraff wedi'u cywasgu'n unfurf mewn derbynyddion gwastraff, ac nid ydynt ychwaith yr un pwysau.

Yn amlwg, mae'r rhan fwyaf o'n gwastraff yn cael ei gasglu gan gynghorau. Fodd bynnag, dim ond Cyngor Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân. Hwn yw'r gwariant a ddatgelir yn y tabl ar dudalen 30. Caiff cost gwastraff a gesglir gan gwmnïau adeiladu pan fyddant yn gwneud gwaith ailwampio ei deillio o'u hanfonebau.

Defnydd o ddŵr

Caiff y wybodaeth hon ei deillio o anfonebau'r cyflenwr ar gyfer ein prif swyddfa yn Llundain. Ar gyfer y swyddfeydd eraill y gweithiwn ynddynt, dibynnwn ar wybodaeth a ddarperir gan y landlord. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael eto ar gyfer 2010–11, ac felly rydym wedi defnyddio ffigurau 2009–10. Yn ogystal, nid yw'r landlordiaid hyn yn darparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig a ddefnyddiwyd; rydym wedi amcangyfrif y rhain ar sail y gost a ailgodwyd arnom gan y landlord. Ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, byddwn yn gofyn i landlordiaid ddarparu darlleniadau o'n defnydd o ddŵr, yn ogystal â'r gost.

Ychwanegedd

Yn unol â Chyfarwyddyd Ariannol yr Ysgrifennydd Cartref, rhaid i'r holl ddryaniadau Loteri ystyried egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau Loteri yw y dylai ein harian fod ar ben yr arian a geir gan y llywodraeth yn hytrach

nag yn lle arian o'r llywodraeth ganol. Felly, ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os ydym yn credu bod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'u prosesau asesu grantiau, bydd ein staff yn holi ymgeiswyr a ydynt wedi ystyried ffynonellau arian eraill.

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

Cadeirydd

Y Fonesig Jenny Abramsky²

Ymddiriedolwyr

Kim Evans²

Ynnon Ezra¹

Kathy Gee

Doug Hulyer¹

Tristram Hunt *hyd at 6 Ebrill 2010*

Dan Clayton Jones

Hilary Lade²

Brian Lang *hyd at 20 Mawrth 2011*

Alison McLean¹

Matthew Saunders *hyd at 15 Mawrth 2011*

Ronnie Spence¹

Virginia Tandy

Richard Wilkin²

Christopher Woodward

Prif Weithredwr

Carole Souter²

¹ Aelod o'r Pwyllgor Archwilio

² Aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys cyflogau)

Y Fonesig Jenny Abramsky

Cadeirydd

Carole Souter

Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2011

Adolygiad ariannol

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa – sef ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dyrannu'r Loteri (CDL). Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynnu ei bod yn cyfrif am ei gweithgareddau ar wahân ac felly ni pharatoir unrhyw gyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau CDL y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod.

Mae CDL yn cael ceisiadau gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau'r Deyrnas Unedig ac yn dyrannu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri ddechrau ym 1994, mae CDL wedi gwneud dros 37,000 o ddyfarniadau ac wedi delio â thros 52,000 o geisiadau grant. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd dros 2,200 o geisiadau grant, yn gofyn am dros £646miliwn (h.y. dros deirgwaith ein hincwm ac o gymharu â £491miliwn y llynedd). Mae hyn yn dangos bod galw anferthol a chynyddol o hyd am arian treftadaeth y Loteri, 17 mlynedd ar ôl i'r Loteri ddechrau.

Yn 2008, cyhoeddodd yr Ymddiriedolwyr eu trydydd Cynllun Strategol sy'n cwmpasu'r cyfnod 2008 i 2013, a gwnaethant nifer o newidiadau sylweddol i'r system asesu ceisiadau grant. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi newid y ffordd y caiff ceisiadau i'r rhaglenni grant mwyaf (Grantiau Treftadaeth a Pharciau i Bobl) eu prosesu. Gwnaed y newid er mwyn rhoi syniad i ymgeiswyr yn gynharach ynglŷn â ph'un a oes siawns o lwyddo gan eu cais ai peidio. Byddai hyn yn arbed amser ac

arian iddynt rhag canlyn prosiectau nad oes fawr o obaith y byddant yn cael grant. Effaith y newid hwn yw nad yw'r penderfyniad cychwynnol yn cael ei ystyried yn ymrwymiad meddal bellach. Nid yw'r penderfyniad rownd gyntaf, fel y'i gelwir bellach, bob amser yn arwain yn anochel at ddyfarniad ail rownd yn yr un ffordd ag yr oedd pas cam 1 yn dod yn ddyfarniad cam 2 cyn cyflwyno'r newidiadau. Rydym hefyd wedi ailwampio ein dulliau prosesu yn gyfan gwbl, a chanlyniad hyn yw ein bod erbyn hyn yn gwneud penderfyniadau'n gyflymach hyd yn oed ar y ceisiadau hynny nad ydynt yn mynd trwy broses ddwy rownd. Ymrwymodd yr Ymddiriedolwyr lawer o adnoddau staff i'r newidiadau yn y system ac, fel y gellir gweld o nodyn 7 i'r cyfrifon, mae gwerth £1.35miliwn o feddalwedd i gefnogi ein ffordd newydd o weithio. Rydym yn falch o ddweud bod ymchwilwyr annibynnol wedi dangos bod ymgeiswyr wedi croesawu ein ffordd newydd, er ein bod yn gorfod gwrthod rhagor o geisiadau wrth i'n cyllidebau grant ostwng.

Yn ystod 2010–11, gwnaeth yr Ymddiriedolwyr ymrwymiadau meddal newydd gwerth cyfanswm o £212.5miliwn (diffinnir ymrwymiadau meddal a chaled yn nodyn 1 i'r cyfrifon). Roedd hyn dros ddwbl cyfanswm y llynedd (£106.1miliwn). Roedd y newid hwn o ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd wrth ymgorffori ein trydydd cynllun strategol. Roeddem yn sylweddoli y byddai gwerth cyffredinol y dyfarniadau yn gostwng ym mlynnyddoedd cynnar y cynllun wrth i ni newid i broses ddwy rownd, ond rydym

Tabl ymrwymiadau

	Ymrwymiadau meddal cam un a rownd un* £m	Dyfarniadau grant £m	Ymrwymiadau caled £m	Cyfanswm y penderfyniadau £m
Ar ddechrau'r flwyddyn	81.8	58.2	538.8	
Penderfyniadau Ymddiriedolwyr yn y flwyddyn	20.7	191.8	–	212.5
Troswyd yn y flwyddyn	(54.9)	54.9	–	
Troswyd yn y flwyddyn	–	(240.1)	240.1	
Dad-ymrwymadau	(1.5)	(0.8)	(8.5)	
Taliadau grant	–	–	(215.9)	
Ar ddiwedd y flwyddyn	46.1	64.0	554.5	

* Nid yw holl basiau rownd un yn ymrwymiadau meddal. Nid ystyrir pasiau rownd un ar gyfer ceisiadau dan y rhaglen Grantiau Treftadaeth a'r rhaglen Parciau i Bobl yn ymrwymiadau meddal.

bellach yn gweld effaith lawn y newid hwn yng ngwerth cyffredinol uwch y dyfarniadau.


Ar y cyfan, cynyddodd yr incwm net rywfaint o £206miliwn yn 2009–10 i dros £224miliwn eleni. Parhaodd yr incwm o'r Loteri Genedlaethol i fod yn swm iach o £258miliwn (2009–10: £247miliwn) gyda £3miliwn (2009–10: £2filiwn) ychwanegol mewn incwm buddsoddiad yn cael ei ennill gan CDLG ar ein rhan. Mae adenillion isel ar incwm buddsoddiad gan fod cyfraddau llog y farchnad a llog o giltiau yn parhau'n isel. Lleddfwyd y cynnydd sylweddol mewn incwm o'r Loteri Genedlaethol unwaith eto yn sgil trosglwyddo £43.4miliwn i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd. Roedd yr incwm amrywiol yn llawer uwch na'r arfer gan fod grant a roddwyd i Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban wedi'i ad-dalu gan eu bod wedi gwerthu adeilad a gefnogwyd gennym.

Gostyngodd balans cyllid CDL yn y CDLG ryw ychydig o £379miliwn i £367miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr Ymddiriedolwyr wedi disgwyl i'r balans syrthio ychydig mwy. Er bod incwm o werthu tocynnau'r Loteri Genedlaethol yn uwch na rhagolwg DCMS, y ffaith bod taliadau grant yn llawer is na'r lefel a gafodd ei darogan oedd y prif reswm dros yr amrywiad. Yn y gorffennol, roedd eu model llif arian wedi

darogan lefel taliadau grant yn llwyddiannus. Gorbwysleisiodd y model y taliadau grant yn 2010–11. Mae rheolwyr yn edrych i mewn i beth achosodd hyn a byddant yn addasu'r model os oes rhaid. Ar hyn o bryd, mae gwerth y taliadau grant yn uwch na'r incwm ac rydym yn cynyddu ein cyllideb ar gyfer dyfarniadau grant yn sylweddol yn y dyfodol oherwydd bydd cyfran o arian achosion da CDL o'r Loteri Genedlaethol hefyd yn cynyddu dros y ddwy flynedd nesaf. Felly, mae'n rhy gynnar dweud beth fydd yn digwydd i'n balans dros y flwyddyn nesaf ond, o ystyried yr oedi anochel rhwng talu'r arian i CDLG a phryd caiff yr arian ei gyflwyno i dderbynwyr y grantiau a'i ddefnyddio, bydd y balans yn codi yn y tymor canolig yn ôl pob tebyg.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd CDL wedi ymrwymo bron i £190miliwn yn fwy na'r hyn yr oedd ganddi yn y CDLG. Roedd balans y rhwymedigaethau cytundebol yn fwy nag asedau net CDL yn ystod y flwyddyn ac roedd diffyg net ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol o dros £180miliwn ar 31 Mawrth 2010. Roedd £110miliwn o ymrwymadau meddal yn ogystal (gweler nodyn 12 i'r cyfrifon) lle nad oedd penderfyniadau'r grant wedi cyrraedd y cyfnod llofnodi contractau. Paratowyd y cyfrifon ar sail weithredol fel y mae cyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd

Costau gweinyddol gwirioneddol yn erbyn costau chwyddedig 2003–04



(Ni chynhyrchwyd costau gweinyddol ar gyfer 2006-07 na chyn hynny o dan Safonau Cofnodi Rhyngwladol)

Gwladol yn mynnu ac oherwydd y sicrhawyd yr Ymddiriedolwyr y byddant yn cael incwm gan y Loteri Genedlaethol tan 2019 o leiaf.

Mae'r tabl ar dudalen 10 yn dangos yr ymrwymadau meddal a wnaed yn ogystal â throsiad ymrwymadau meddal mewn blynyddoedd blaenorol yn ymrwymadau caled yn 2010–11. Caiff ymrwymadau meddal eu trosi'n ymrwymadau caled pan fydd contract wedi'i lofnodi gyda derbynnydd y grant.

At ei gilydd, gostyngodd costau gweinyddol 9.5% yn ystod y flwyddyn, gan ddangos unwaith eto bod y sefydliad yn ddosbarthydd effeithlon o gyllid y Loteri Genedlaethol – dangosir tystiolaeth bellach yn y siart ar dudalen 11. Cynorthwywyd y gostyngiad o 4.2% mewn costau staff gan y ffaith fod y llywodraeth newydd wedi rhewi cyflogau'r sector cyhoeddus, ond bu gostyngiad hefyd yn nifer y staff ar gyfartaledd (i lawr 7 i 232). Bu cynnydd mewn dibrisiad nad oedd yn peri syndod o ystyried y gwariant cyfalaf sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â'r gwariant ar feddalwedd i ddiweddarau ein systemau, adnewyddwyd y brif Swyddfa yn Llundain am y tro cyntaf ers 13 blynedd a gosodwyd boeleri ac oeryddion newydd yn lle'r hen rai oedd wedi bod yno ers chwarter canrif. Gostyngodd costau gweinyddol eraill 17%. Unwaith eto, Roedd penderfyniad y llywodraeth newydd i rewi mathau penodol o wariant – hysbysebu a marchnata – unwaith eto wedi cael effaith, yn ogystal â'r targed a bennwyd ar gyfer cyfran y costau gweinyddol o gymharu ag incwm. Ymatebodd y rheolwyr i'r her a chafwyd gostyngiadau ar draws y sefydliad ac fe wnaethom elwa hefyd ar gyfraniad uwch gan y Gronfa Loteri Fawr tuag at y gost o gynnal y rhaglen Parciau i Bobl. Cynyddodd eu cyfraniad o £476,000 i £779,000 – oherwydd cytunodd y Gronfa Loteri Fawr i gyfrannu £20miliwn yn ychwanegol tuag at grantiau dros dair blynedd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan reolwyr a staff i gyflawni'r arbedion cost sylweddol hyn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn sylweddoli y bydd y camau sydd ar y gweill i gynyddu gwerth cyffredinol y dyfarniadau

grant a lefel gyffredinol chwyddiant yn golygu y bydd hi'n anodd i'r sefydliad gadw costau'n isel, ond mae'r rheolwyr wedi pennu cyllideb weinyddol ar gyfer 2011–12 fydd yn parhau i gwtogi ar gostau er mwyn arbed arian drwy weithredu'n effeithlon.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylid cyflawni gwell effeithlonrwydd yn y costau gweinyddu ar draul gwasanaeth i'n rhanddeiliaid. Maent yn falch o adrodd bod cyflawniad targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a rhai sy'n derbyn grantiau ar eu lefel uchaf ers i ni ddechrau ein harolygon blynyddol. Mae mwy o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael mewn manau eraill yn yr adroddiad blynyddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau sy'n wynebu CDL mewn cyfarfodydd misol o'r Bwrdd a thrwy eu Pwyllgor Archwilio. Llunnir cofrestr o'r risgiau lefel uchaf, ac mae honno'n cael ei hadolygu bob chwarter. Trafodir y prif risgiau ymhellach yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

Dangosydd perfformiad allweddol Mae gan CDL enw da fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri'n effeithlon. Mae'r siart ar dudalen 11 yn nodi ein costau gweinyddol ym mhob un o'r wyth mlynedd ers i ni greu ein strwythur swyddfa ranbarthol – y llinell dywyll. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth costau gweinyddol a gafwyd wyth mlynedd yn ôl o'u cynyddu'n unol â datchwyddwr CMC y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r DU. Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod costau gweinyddol 2010–11 yn £9.2miliwn (neu 34.3%) yn is na beth fyddai chwyddiant ers 2003–04 wedi awgrymu – ac mae hynny'n ostyngiad termau real sylweddol mewn costau gweinyddol ac yn rhyddhau rhagor o arian ar gyfer grantiau. Pe byddem yn defnyddio Mynegai Prisiau'r Farchnad yn hytrach na'r CMC, byddai'r costau £10.6miliwn (neu 37.5%) yn is na lefel 2003–04.

Mae dosbarthwyr y Loteri wedi bod yn cyfathrebu â gweinidogion yn ystod 2010–11 i fesur effeithlonrwydd o ran costau prosesu grantiau gwariant gweithredu fel canran o'n hincwm. Gwariant gweithredu yw'r swm

rydym yn ei wario nad yw'n daliadau grant. Yn syml, ystyrir costau prosesu grantiau fel faint mae'n ei gostio i CGDG i brosesu ceisiadau am grantiau'r Loteri a'r gorbenion gweinyddol cysylltiedig. I gyfrifo'r costau gweinyddol, rydym yn defnyddio ein gwariant gweinyddol ac nid ydym yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â chynorthwyo ymgeiswyr posibl – Gwaith datblygu ac allgyrch, gweithdai, cyhoeddiadau, mentora a chynnal gwefan – yn ogystal â'n gweithgareddau ymchwil.

Mae'r gweinidogion wedi pennu targedau sy'n ein gorfodi i gadw ein costau prosesu grantiau o dan 5% o incwm a'n gwariant gweithredu o dan 8% o gyfanswm yr incwm. Rhaid i ni gyrraedd y targedau hyn erbyn 2013–14. Dyma oedd ein gwariant yn 2010–11:

	Targed	Gwirioneddol
Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm yr incwm	8%	6.6%
Gwariant gweinyddol fel cyfran o gyfanswm yr incwm	5%	5.1%

Mae'r ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod y targedau hyn bron wedi'u cyflawni dair blynedd yn gynnar a disgwyliwn gyrraedd y ddau darged y flwyddyn nesaf.

Data personol

Ni chafodd CDL unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CDL yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2010–11, collwyd 2,199 o ddiwrnodau yn sgil 354 o achosion o salwch (2009–10: 1,940 o ddiwrnodau mewn 412 o achosion o salwch). Mae hynny'n 2.56% o'r holl ddiwrnodau gweithio ac yn ganran isel iawn (2009–10: 2.16%).

Adroddiad tâl

Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr gael

cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG. Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr hynny a gafodd eu talu, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl isod. Fe wnaeth dau Ymddiriedolwr, Yinnon Ezra a Virginia Tandy, ildio eu hawl i gael cyflog.

Gwybodaeth archwilledig

	2010–11 £'000*	2009–10 £'000*
Y Fonesig Jenny Abramsky <i>Cadeirydd</i>	40–45	40–45
Mike Emmerich <i>hyd nes 28 Gorffennaf 2009</i>	0	5–10
Kim Evans	5–10	5–10
Yinnon Ezra	0–5	0–5
Kathy Gee	5–10	10–15
Doug Hulyer	10–15	10–15
Tristram Hunt <i>hyd nes 6 Ebrill 2010</i>	0	5–10
Dan Clayton Jones	20–25	20–25
Hilary Lade	10–15	5–10
Brian Lang <i>hyd nes 20 Mawrth 2011</i>	20–25	20–25
Alison McLean	5–10	10–15
Matthew Saunders <i>hyd nes 15 Mawrth 2011</i>	5–10	5–10
Ronnie Spence	20–25	20–25
Virginia Tandy <i>a 1 Medi 2009</i>	0–5	0–5
Richard Wilkin	5–10	10–15
Christopher Woodward	5–10	5–10

* Mae newidiadau sylweddol yn y tâl a adroddir, gan gynnwys treuliau trethadwy, yn digwydd yn sgil Ymddiriedolwyr heb fod yn cael eu cyflogi am flwyddyn iawn yn naill ai 2009–10 neu 2010–11.

Mae gan bob Ymddiriedolwr benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor. Fe'u penodir gan y Prif Weinidog. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i

gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2010–11 oedd £182,721 (2009–10: £195,541). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan y DCMS. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad yw'n arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

Tâl cyflogeion

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yn y tabl isod yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau Nuvos.

Mae bonysau sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân am y tro cyntaf.

Tâl cyflogeion (Gwybodaeth archwilledig)

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	Cyflog yn 2010–11 £'000	Cyflog yn 2009–10 £'000	Bonws 2010–11 £'000	Bonws 2009–10 £'000	Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/11 £'000	CETV ar 31/03/10 £'000*	Cynnydd real yn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000
Carole Souter <i>Prif Weithredwr</i>	130–135	130–135	0–5**	0–5**	0–2.5 a 0–2.5 o gyfan- daliad	50–55 a 155–160 o gyfan- daliad	973	890	12
Robert Bewley <i>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</i>	90–95	90–95	5–10	0–5	0–2.5 a 0–2.5 o gyfan- daliad	30–35 a 90–95 o gyfan- daliad	583	527	10
Judith Cligman <i>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes</i>	90–95	90–95	0–5	0–5	0–2.5 a 0–2.5 o gyfan- daliad	30–35 a 90–95 o gyfan- daliad	516	467	9
Steve Willis <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol</i>	100–105	100–105	5–10	5–10	0 a 0 cyfan- daliad	50–55 a 155–160 o gyfan- daliad	1,134	1,058	- 4

* Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rheiny a ddyfynnwyd yng nghyfrifon y llynedd. Y rheswm am hyn yw bod y ffactorau actiwaraid wedi'u haddasu yn 2010 yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffeg a symud o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

** Ildiodd Carole Souter ei hawl i fonws cyfarwyddwr yn 2009–10 a 2010–11.

Mae hyn yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai contractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99%: 1% (2009–10: 99%: 1%). Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei thro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol CDL a'r cyfraniad a ddisgwylir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan CDL system rheoli perfformiad ac adolygir perfformiad yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth-Ebrill a'i ddosbarthu ar raddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

(nodir aelodaeth y pwyllgor hwn ar dudalen 9) am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar contractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na chwe mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai CDL yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r DCMS.

Pecynnau ymadael

O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael y mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex-gratia ac ati. Nid oedd unrhyw rai yn 2010–11 (2009–10: 3).

Gwybodaeth archwilledig

	2010–11 Nifer	2009–10 Nifer
£0–£5,000	0	3

Yn 2009–10, ymddeolodd dau o bobl ar sail afiechyd. Ni wnaethant dderbyn unrhyw daliadau ychwanegol gan CGDG.

Carole Souter

Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2011

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

O dan adran 7(2) o Ddeddf 1980, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau materol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail weithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r DCMS wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Managing Public Money*.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y Fonesig Jenny Abramsky
Cadeirydd

Carole Souter
Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2011

Datganiad ar reolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion CGDG ac ar yr un pryd yn diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money*.

Rwyf yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolwyr CGDG sy'n rhannu cyfrifoldeb am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- diffinio dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;
- goruchwyllo'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac
- adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Cyflawnir y cyfrifoldeb hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd yr Ymddiriedolwyr ag uwch reolwyr i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â pholisi. Yn ogystal, mae is-bwyllgorau Ymddiriedolwyr, yn enwedig y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, yn goruchwyllo gweithgareddau rheoli ac yn rhoi cefnogaeth. Mae'r holl weithgarwch gosod polisi a phenderfynu grantiau yn cael ei lywio gan ddiwylliant rheoli risg CGDG. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod yn rheolaidd yr adroddiadau risg a gynhyrchir gan reolwyr ac yn eu holi am y dulliau a ddefnyddiant i liniaru risg.

Caiff cynllun gweithredu blynyddol CGDG – y Cynllun Busnes – ei drafod gyda'n hadran noddi, sef y DCMS. Mae'r DCMS hefyd wedi gosod Cyfarwyddiadau Polisi ac Ariannol y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau Loteri (mae Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â'n gweithgareddau yng Nghymru). Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheoli cytunedig a Memorandwm Ariannol sy'n seiliedig ar dempled a luniwyd gan y Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd

rheolaidd ag uwch-swyddogion y DCMS a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

Diben y system rheolaeth fewnol Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion; dim ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall wneud felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion CGDG, i werthuso tebygolrwydd sylweddoli'r risgiau hynny a'r effaith pe byddent yn cael eu sylweddoli, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yng CGDG ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ac mae'n cydsynio ag arweiniad y Trysorlys.

Cafodd y newidiadau i arferion gweithio CGDG a ddaeth yn sgil mabwysiadu ei thrydydd cynllun strategol ar gyfer ei gweithgareddau Loteri, eu hadolygu'n drwyadl gan y rheolwyr cyn eu gweithredu yn 2008–09 a 2009–10. Gwneuthum yn ofynnol hefyd i'r archwilwyr mewnol wirio y byddai cynigion y rheolwyr yn cyflawni ein hamcanion, ac i gynnal adolygiad dilynol o'r arferion rhoi grantiau. Roeddwn yn fodlon ar ganlyniadau'r adroddiadau archwilio mewnol, a ddangosodd ein bod wedi sicrhau newidiadau sylweddol i'n systemau asesu a monitro grantiau, â llaw ac yn electronig, ar gyfer ein gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Ni wnaed unrhyw newidiadau o bwys i'n systemau yn 2010–11 ac nid oes unrhyw broblemau wedi codi sy'n fy arwain i gredu nad yw'r system rheolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol.

Gallu i ddelio â risg

Y Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys rheolwyr uchaf CGDG, sy'n arwain ar bob agwedd ar reoli risg. Mae'n penodi perchenogion risg ac yn eu gwneud yn gyfrifol am greu a chymhwyso strategaethau i liniaru'r risg o dan eu rheolaeth. Fi sy'n cadeirio pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli, sy'n cwrdd bob wythnos.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys pedwar Ymddiriedolwr, yn trafod y broses rheoli risg yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r prif gorff o Ymddiriedolwyr am reoli risg. Rwyf fi a'm huwch reolwyr yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Ymhellach, mae archwilwyr mewnol ac allanol yn adolygu'r prosesau rheoli risg fel rhan o'u gwaith a gallant roi budd eu profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Caiff y gofrestr risgiau ei chylchredeg i'r holl reolwyr canol cyn iddynt gynhyrchu cynlluniau tîm blynyddol. Disgwylir iddynt ystyried yn benodol gynnwys y gofrestr yn eu cynlluniau a dod ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i sylw'r uwch reolwyr. Caiff y cynlluniau eu trafod a'u cymeradwyo gan yr uwch reolwyr. Mae'r rheolwyr canol hefyd yn cyfarfod fel grŵp â'r uwch reolwyr mewn Fforymau Rheolwyr. Mae agenda'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cynllunio a risg yn rheolaidd, ac yn galluogi staff o adrannau amrywiol i rannu'u barn ar arfer da.

Y fframwaith risg a rheoli
Lluniodd y Bwrdd Rheoli ddatganiad rheoli risg sy'n nodi egwyddorion rheoli risg. Mae wedyn yn disgrifio sut y mae CGDG yn nodi, monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd, ac yn nodi archwaeth risg y Gronfa. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i unigolion a grwpiau i sicrhau bod arfer rheoli risg CGDG yn cyflawni'i bolisiau risg. Cymeradwyir y datganiad gan y Pwyllgor Archwilio, ac fe'i adolygir yn flynyddol.

Bob blwyddyn, caiff risgiau eu categorïddio drwy ystyried pa mor debygol y maent o ddigwydd pe na fyddai unrhyw weithgarwch lliniaru risg yn digwydd a'r effaith pe byddai'r risg yn digwydd. Mae'r risgiau lle ystyrir bod yr effaith bosibl yn uchel yn ffurfio cofrestr risg CGDG. Wedyn mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi'r dasg i'r uwch reolwyr (y 'perchenogion risg') o roi gweithdrefnau ar waith i fonitro risg, ac os yw'n bosibl, ei liniaru.

Mae'r gofrestr risg yn ffurfio rhan o gynllun busnes blynyddol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ôl iddo gael ei ardystio'n flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu effeithiolrwydd ym mhob cyfarfod, ac yn cwestiynu gweithgareddau perchenogion risg. Mae'r holl bapurau polisi a roddir i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i benderfynu arnynt yn cynnwys trafodaeth am y risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd camau gweithredu posibl. Mae'r Bwrdd hefyd yn trafod pob un o'r risgiau ar y gofrestr risg yn rheolaidd gyda'r perchennog risg.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth sydd i'w ddilyn gan bob aelod o staff – mae staff newydd yn ei ddarllen fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Mae'r polisi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn, yn mynnu bod pob data'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae CGDG yn cydymffurfio â'r Fframwaith Polisi Diogelwch a mesurau gorfodol yr Adolygiad Trin Data.

Yn 2010–11, ystyriodd CGDG mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- ein hincwm yn gostwng yn annisgwyl;
- gosod terfyn mympwyol ar gostau rhedeg;
- newid deddfwriaethol yn dylanwadu ar nodau a gweithrediadau'r sefydliad;
- grantiau a ddyfarnwyd yn methu bodloni ein hamcanion strategol;
- y galw am ddyfarniadau, cyngor cyn cyflwyno cais a chymau monitro yn mynd y tu hwnt i'n gallu gweithredol (ychwanegwyd at y gofrestr yn 2011);
- ein strategaeth yn methu bodloni anghenion y dreftadaeth a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol, ac felly diffyg cefnogaeth iddi gan ein rhanddeiliaid;
- methu gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon gan achosi risg aneffeithlonrwydd, twyll neu wneud penderfyniadau sy'n agored i her;
- methu recriwtio, cadw staff medrus priodol;

- diffyg cydnabyddiaeth ddigonol am gyfraniad CGDG/CDL gan y rhai sy'n derbyn grantiau;
- bod cymorth a dylanwad yn lleihau o ganlyniad i lefel isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n cyfraniad ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri;
- risg craffu cynyddol gan y cyfryngau a llunwyr barn ar ein penderfyniadau ariannu yn yr amodau economaidd presennol, gyda'r potensial am ymateb niweidiol (ychwanegwyd at y gofrestr yn 2011);
- galw cynyddol mewn hinsawdd economaidd ddirywiol yn rhoi pwysau ar gronfa waddol CGDG a/neu golli treftadaeth gan arwain at gyhoeddusrwydd negyddol a lleihad yn hyder rhanddeiliaid (ychwanegwyd at y gofrestr yn 2011).

Mae'r tair risg gyntaf uchod, ar incwm yn gostwng, terfyn ar gostau rhedeg a newid deddfwriaethol, wedi'u dileu o'r gofrestr risgiau ar gyfer 2011 gan yr wyf o'r farn nad yw'r risgiau yn berthnasol mwyach. Mae penderfyniadau'r Llywodraeth newydd wedi arwain at gynnydd yn incwm gweithgareddau dosbarthu Loteri CGDG; mae terfyn wedi'i roi ar gostau gweithredol a gweinyddol; ac fe wnaeth CGDG oroesi'r adolygiad o gyrff cyhoeddus. Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn dychwelyd y risg i'r gofrestr os bydd angen.

Mae'r strategaeth rheoli risg yn rhoi manylion archwaeth risg y Gronfa: "Dylid annog arfer trwyadl wrth gymryd risgiau a dylid annog arloesedd er mwyn cyflawni amcanion CGDG. Mae hyn yn golygu nad diwylliant osgoi risg 100% yw'r defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau." Credaf fod y Gronfa yn dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant, ac nid yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg.

Er mai'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio sy'n arwain ar osod y fframwaith risg, mae'r staff ar lefel rheolwyr canol wedi'u

hymgorffori'n llawn yn y system. Fel y soniwyd uchod, mae'r Fforwm Rheolwyr yn trafod yn rheolaidd yr amgylchedd risg y mae CGDG yn gweithredu ynddo, a sut dylai'r Gronfa ymateb. Caiff yr holl reolwyr canol eu harfarnu yn flynyddol o ran y modd y maent yn rhagweld, nodi ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn CGDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. O ganlyniad i'w gwaith yn ystod y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu tystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Yn ogystal, rwyf wedi gweld llythyr y rheolwyr a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Ni amlygwyd unrhyw wendidau rheoli sylweddol. Rwyf wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad f'adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system rheolaeth fewnol yn gwella'n barhaus.

Caiff y cynllun archwilio mewnol blynyddol ei greu ar sail risg; darperir copi drafft o gofrestr y risgiau i'r archwilwyr pan fyddant yn paratoi eu cynllun. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol. Rwyf wedi sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y cynllun i allu gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn yr amgylchedd risg neu os bydd risgiau newydd yn dod i'r amlwg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n paratoi adroddiad blynyddol o'i weithgarwch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae is-bwyllgor arall gan y Bwrdd hefyd – y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

– sydd, ymhlith ei orchwylion, yn adolygu gweithgareddau gweinyddol CGDG, gan gynnwys ei gyfrifon rheoli a'i gyllidebau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n trafod holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddir ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – mae hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau'r pwyllgor drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Mae'n ofynnol i benaethiaid adran y mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi diffygion yn eu hadran, lunio cam cywirol a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y cam hwnnw mewn ymgynghoriad â'r archwilwyr mewnol. Caf adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr sy'n rhoi gwybod i mi am y cynnydd y mae fy mhenaethiaid adran wedi'i gyflawni yn gwella'r pwyntiau a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r archwilwyr mewnol na'r archwilwyr allanol wedi adrodd am unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol sy'n fy arwain i amau digonolrwydd ein systemau.

Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd i'r Bwrdd Rheoli, a fynychir gan bob uwch reolwr. Mae'r Bwrdd Rheoli yn goruchwyllo holl weithgareddau'r Gronfa ac yn rhoi'r cyfle i mi a'm cydweithwyr adolygu a herio'r gweithgareddau hyn.

Mae'r deiliaid y gyllideb – sef uwch reolwyr CGDG i bob pwrpas – yn trosglwyddo memoranda o gynrychiolaeth i mi, yn nodi eu cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae deiliaid y gyllideb yn cael memoranda tebyg gan reolwyr eu canolfan gost – sef rheolwyr canol CGDG i bob pwrpas. Rwy'n dibynnu ar yr honiadau hyn gan fy rheolwyr, ac rwy'n sicrhau y caiff y cyfan eu hadolygu cyn i mi lofnodi'r Datganiad hwn ar Reolaeth Fewnol.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith y Gronfa yn darparu i mi'r lefel o sicrwydd sydd ei hangen arnaf. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n peri i mi gredu bod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro

buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grant Loteri yn annigonol.

Carole Souter
Prif Weithredwr

7 Gorffennaf 2011

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin a'r Tŷ Arglwyddi a Senedd yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gweithgareddau Dosbarthu Arian Loteri CGDG ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd). Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Cyfrifoldebau penodol yr Ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: ba un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf

yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynnyddol er mwyn nodi anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materion amlwg, ystyriaf y goblygiadau i fy nhystysgrif.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Dosbarthu Arian Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2011 a'i diffygion, newidiadau mewn ecwiti a llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y ddeddf honno.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn Sylwadau'r Rheolwyr a'r Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr adroddaf arnynt
drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei
gylch mewn perthynas â'r materion canlynol
yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion ariannol digonol
wedi'u cadw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r
Adroddiad Talu sydd i'w harchwilio yn
gyson â'r cofnodion neu'r dychweliadau
cyfrifon; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth
a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu
cael ar gyfer f'archwiliad.
- nid yw'r Datganiad o Reolaeth Fewnol yn
adlewyrchu cydymffurfio ag arweiniad
Trysorlys Ei Mawrhydi.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud
ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas CE Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

8 Gorffennaf 2011

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157–197 Buckingham Palace Road

Victoria

Llundain SW1W 9SP

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

	Nodiadau	£'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	10		257,721	246,745
Buddsoddiad incwm y CDLG	10		2,843	2,007
			260,564	248,752
Llai: swm a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon				
	10		(43,388)	(43,389)
			217,176	205,363
Llog sy'n dderbyniadwy		51		58
Incwm amrywiol	2	6,849	6,900	88
Cyfanswm incwm			224,076	205,509
Ymrwymadau caled newydd	12	(240,078)		(219,260)
Dad-ymrwymadau caled	12	8,473		13,027
			(231,605)	(206,233)
Costau staff	3	(9,562)		(9,985)
Dibrisiad ac amorteiddio	7 ac 8	(676)		(545)
Costau gweithredu eraill	4	(7,398)		(8,912)
			(17,636)	(19,442)
Cyfanswm gwariant			(249,241)	(225,675)
Diffyg gweithredol			(25,165)	(20,166)
Gwariant cynhwysfawr arall				
Colled net ar ailwerthusiad o'r asedau ariannol sydd ar werth ac ar gael	17		(352)	(630)
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011			(25,517)	(20,796)

Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 41 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

	Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000	Cyfrif Incwm a Gwariant £'000
Balans ar 1 Ebrill 2009	549	(134,765)
Newidiadau mewn ecwiti yn 2009-10		
Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif incwm a gwariant	(549)	549
Colled net ar ailbrisio buddsoddiadau	(630)	
Diffyg a gadwyd		(20,166)
Balans ar 31 Mawrth 2010	(630)	(154,382)
Newidiadau mewn ecwiti yn 2010-11		
Rhyddhau cronfa wrth gefn gwerth teg i'r cyfrif incwm a gwariant	630	(630)
Colled net ar ailbrisio buddsoddiadau	(352)	
Diffyg a gadwyd		(25,165)
Balans ar 31 Mawrth 2011	(352)	(180,177)

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad y balans yn yr CDLG (gweler nodyn 10). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad asedau anniriaethol, eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodiadau 7 ac 8 i'r cyfrifon) yn berthnasol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 41 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2011

	Nodiadau	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Asedau anghyfredol			
Asedau sefydlog anniriaethol	7	901	1,025
Eiddo, peiriannau ac offer	8	1,182	1,143
Asedau Cyfredol			
Buddsoddiadau – balans yn CDLG	10	367,218	378,977
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	9	4,152	1,232
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod		2,847	3,604
		374,217	383,813
Cyfanswm asedau		376,300	385,981
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaeth	18	(35)	0
Rhwymedigaethau gweinyddol	11	(2,309)	(2,256)
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn blwyddyn	12	(221,794)	(236,726)
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net		152,162	146,999
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Ymrwymadau grant sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn	12	(332,691)	(302,011)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau	6	0	0
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau		(180,529)	(155,012)
Cynrychiolir gan:			
Cronfa wrth gefn gwerth teg	17	(352)	(630)
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		(154,382)	(134,765)
Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisiad		(630)	549
Symudiad yn y flwyddyn		(25,165)	(20,166)
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		(180,177)	(154,382)
		(180,529)	(155,012)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 41 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

Y Fonesig Jenny Abramsky
Cadeirydd

Carole Souter
Prif Wethredwr

7 Gorffennaf 2011

Datganiad Llifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

	Nodiadau	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Gweithgareddau gweithredu			
Arian a dynnwyd o'r CDLG	10	228,583	278,318
Arian o ffynonellau eraill	2	6,849	88
Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan		(9,494)	(9,927)
Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc		52	61
Arian a dalwyd i gyflenwyr		(10,299)	(7,070)
Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciadau	12	(215,857)	(260,627)
(All-lif)/Mewnlfif arian net o weithgareddau gweithredu	14a	(166)	843
Gweithgareddau buddsoddi			
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	14b	(591)	(1,344)
Gostyngiad mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod		(757)	(501)

Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

	Nodiadau	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Gostyngiad mewn arian a symiau cyfwerth ag arian yn y cyfnod		(757)	(501)
Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian parod	14c	(757)	(501)
Arian a symiau cyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn		3,604	4,105
Arian a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		2,847	3,604

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 41 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

Nodiadau i'r Cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl byddant yn cael effaith sylweddol ar yr incwm a'r asedau net a adroddwyd ar weithgareddau CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a'r FREM, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol a'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Hydref 2002. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FREM yn cymhwyso IFRS fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol ac mae'n gorfodi'r ddefnydd o gyfrifo ymrwymadau ar gyfer dyfarniadau – yn wahanol i gyfrifo cronïadau. Mae copïau o ddosbarthiad y Loteri a chyfarwyddiadau cyfrifon cymorth grant y Loteri Genedlaethol ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Pan fo'r FREM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail busnes parhaus gan fod DCMS wedi hysbysu CGDG nad oes bwriad ganddo i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri ar gyfer y sector treftadaeth. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd y byddant yn parhau i dderbyn arian gan y Loteri.

b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo'r gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

Eiddo prydles fer	– oes y brydles;
Offer swyddfa	– 4–10 mlynedd;
Gosodiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd;
Asesu grantiau a meddalwedd arall	– hyd at 5 mlynedd.

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu.

c) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd

Mae Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 8 yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu am adrodd segmentaidd os yw hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Lle bo'n berthnasol, byddai uwch reolwyr yn nodi ffynonellau gweithgareddau ar wahân ac yn dosrannu costau gweinyddol ar eu cyfer ar sail pro-rata yn unol â lefel y grant a ddyfarnwyd, oni bai bod gwahaniaeth sylweddol yn y modd y proseswyd ceisiadau a bod dulliau ad hoc wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, ar wahân i adrodd ar wahân ar gyfer ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, sy'n rhywbeth y mae CGDG yn gorfod ei wneud yn unol â'i chyfarwyddyd cyfrifon Loteri nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu bod modd rhannu eu cymorth grant na'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn segmentau ar wahân.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money* a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i'r ddwy gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, 99% oedd cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i CDL.

d) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y penawdau gwariant perthnasol.

e) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae staff yn aelodau o PCSPS a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

f) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

g) Balansau yng CDLG

Mae'r balansau a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad dros y modd y caiff y symiau hyn eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel y dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i thystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ymrwymadau cyfredol ac ymrwymadau'r dyfodol.

h) Ymrwymadau Grant

Mae ymrwymadau "meddal", fel y'u diffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn cynrychioli penderfyniadau cadarnhaol a wneir gan Ymddiriedolwyr yn amodol ar gwblhau contract yn llwyddiannus. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, disgrifir bod yr ymrwymiad yn "galed". Ceir dad-ymrwymadau meddal pan nad yw dyfarniad neu ran-ddyfarniad yn cael ei droi'n ymrwymiad caled – fel arfer gan fod y sawl sy'n derbyn y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'i brosiect. Ceir dad-ymrwymadau caled pan nad oes angen yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract ar y prosiect sy'n cael ei ariannu. Mae'r holl ymrwymadau grant yn daladwy ar unwaith pan dderbynnir ceisiadau dilys am daliad.

i) Benthyciadau

Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan Gyfarwyddiadau Ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae cyfraddau llog a thelerau ad-dalu fel y gwêl yr Ymddiriedolwyr yn ddoeth.

2. Incwm amrywiol

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Ad-dalu grantiau	6,849	88

Mae'r ffigur ar gyfer 2010-11 yn cynnwys £6.8miliwn o Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban ar ôl gwerthu eu prif swyddfa yng Nghaeredin. Rhoddodd CDL grant i'r Ymddiriedolaeth yn wreiddiol i brynu'r adeilad hwn ym 1998.

3. Costau a niferoedd staff

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cyflogau	7,474	7,804
Taliadau YG y cyflogwr	553	540
Taliadau i gynllun pensiwn (gweler nodyn 6)	1,369	1,389
Costau staff dros dro	131	252
Darpariaeth ar gyfer hawliadau gweithwyr	35	0
	9,562	9,985

Rydym wedi ein hysbysu bod gweithiwr yn gwneud hawliad ac rydym wedi gwneud darpariaeth yn unol â hynny.

Dyma oedd nifer y gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn:

2010-11	Ceisiadau grant	Cyllid a gweinyddu	Strategaeth a datblygu busnes	Cyfathrebu	Cyfanswm
Staff parhaol	151	33	20	16	220
Secondeion a staff contract	8	0	0	4	12
Cyfanswm	159	33	20	20	232

2009-10	Ceisiadau grant	Cyllid a gweinyddu	Strategaeth a datblygu busnes	Cyfathrebu	Cyfanswm
Staff parhaol	150	36	24	16	226
Secondeion a staff contract	9	1	0	3	13
Cyfanswm	159	37	24	19	239

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth gan nad yw ein systemau'n caniatáu ar gyfer casglu ffigur cyfwerth ag amser llawn.

4. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Taliadau'r archwilydd	42	42
Taliadau o dan brydlesi gweithredol		
– safleoedd prydles	1,331	1,381
– llogi offer swyddfa	14	25

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Llety	2,068	2,293
Post a ffôn	406	313
Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu	351	244
Teithio, cynhaliadau a lletygarwch – Ymddiriedolwyr	95	107
Teithio, cynhaliadau a lletygarwch – staff	276	340
Ffioedd proffesiynol – yn gysylltiedig â grant	1,907	2,714
Ffioedd proffesiynol – heb fod yn gysylltiedig â grant	1,053	1,174
Cyfathrebu	630	866
Offer swyddfa	376	484
Hyfforddiant staff	106	213
Costau amrywiol	130	164
	7,398	8,912

5. Costau a ailgodir

Fel y datgelwyd yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae gofyn i CGDG ddatgelu ei chostau dosbarthu'r Loteri yng nghyfrifon CDL. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, 99% oedd cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd. Ym mis Ebrill 2002, trosglwyddwyd holl weithgareddau CGDG i Holbein Place, Llundain. O ganlyniad, mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar CDL.

6. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil – y PCSPS. Ers 30 Gorffennaf 2007, mae staff newydd heb unrhyw aelodaeth PCSPS flaenorol yn gallu ymuno â Nuvos. Mae hwn yn gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig sy'n gysylltiedig â'r mynegai. Y gyfradd gyfrannu yw 3.5% i aelodau ar hyn o bryd, a bydd yn darparu pensiwn budd-dal diffiniedig gydag oed pensiwn o 65.

Mae'r staff a ymunodd â CGDG cyn 30 Gorffennaf 2007, neu oedd yn berchen ar aelodaeth PCSPS cymwys o'r blaen wrth ymuno ers y dyddiad hwnnw, yn aros mewn un o dri chynllun â buddion wedi'u diffinio 'cyflog terfynol' statudol (classic, premium a classic plus). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a Nuvos eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth sy'n codi pensiynau.

Gosodir cyfraniadau cyflogaion ar y gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% ar gyfer premium, classic plus a Nuvos. Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic ac mae buddion am wasanaeth ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r

cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Gallai aelodau a ymunodd â CGDG o fis Hydref 2002 fod wedi dewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr, a elwir yn Gyfrif Pensiwn Partneriaeth. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy at PCSPS i dalu cost yswiriant budd risg cyfandaliad a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch). Ar hyn o bryd, mae saith o aelodau staff â chyfrif pensiwn partneriaeth. Ni ymddeolodd unrhyw aelod o staff am resymau iechyd yn ystod 2010–11.

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrhau gan y PCSPS yn talu cost sicrhau pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronns. Ar gyfer 2010–11, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1,369,067 (2009–10: £1,389,248) i'r PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservice-pensions.gov.uk/my-civil-service/pensions/index.aspx

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, fel a ganlyn:

Cyflog yn 2010–11	% yn 2010–11	
£21,000 ac is	16.7%	
£21,001–£43,000	18.8%	
£43,001–£74,000	21.8%	
£74,001 ac uwch	24.3%	
	2010–11 £'000	2009–10 £'000
Darpariaeth ar ddechrau'r flwyddyn	0	4
Darpariaeth ymddeoliad cynnar	0	0
Darpariaeth wedi'i hadfer yn ôl	0	0
Taliadau pensiwn a wnaed	(0)	(4)
Darpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn	0	0

Yn ystod 2007–08 ymddeolodd dau aelod o staff yn gynnar. Talodd CGDG gost ymddeoliad cynnar hyd nes bod y bobl hynny yn cyrraedd 60 oed a chymerodd y PCSPS gyfrifoldeb am gost y pensiwn. Digwyddodd hyn yn ystod 2009–10.

7. Asedau sefydlog anniriaethol

	Gwefan		Technoleg Gwybodaeth		Cyfanswm	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	198	0	1,166	827	1,364	827
Ychwanegiadau	52	198	188	339	240	537
Ar ddiwedd y flwyddyn	250	198	1,354	1,166	1,604	1,364
Amorteddio ar ddechrau'r flwyddyn	17	0	322	97	339	97
Cost am y flwyddyn	65	17	299	225	364	242
Ar ddiwedd y flwyddyn	82	17	621	322	703	339
Gwerth llyfr net						
Ar ddechrau'r flwyddyn	181	0	844	730	1,025	730
Ar ddiwedd y flwyddyn	168	181	733	844	901	1,025

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system reoli ar gyfer asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebwyd i CDL gan ddatblygwyr meddalwedd. Nid yw unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol wedi'u cyfalafu. Mae'r asedau wedi'u hamorteddio dros eu bywydau defnyddiol disgwylidig, sef diwedd y cyfnod sy'n dod o dan ein trydydd Cynllun Strategol; h.y. y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2013. Rhagwelir hwyrach y bydd angen newid ein meddalwedd prosesu busnes ar gyfer ein pedwerydd Cynllun Strategol.

Yn ôl adolygiad o werthoedd cost gyfredol asedau sefydlog anniriaethol, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol i werthoedd cost hanesyddol ar 31 Mawrth 2011. Felly, nid oes unrhyw addasiad wedi'i wneud i adlewyrchu gwerthoedd cost gyfredol asedau sefydlog anniriaethol.

8. Eiddo, peiriannau ac offer

	Eiddo prydlles fer		TG ac offer arall		Ffitiadau swyddfa		Cyfanswm	
	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	1,572	2,073	1,999	1,485	58	58	3,629	3,616
Ychwanegiadau	102	206	246	601	3	0	351	807
Gwarediadau	0	(707)	(80)	(87)	0	0	(80)	(794)
Ar ddiwedd y flwyddyn	1,674	1,572	2,165	1,999	61	58	3,900	3,629
Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn	1,107	1,675	1,321	1,244	58	58	2,486	2,977
Cost am y flwyddyn	120	139	191	164	1	0	312	303
Addasiad ar waredu	0	(707)	(80)	(87)	0	0	(80)	(794)
Ar ddiwedd y flwyddyn	1,227	1,107	1,432	1,321	59	58	2,718	2,486
Gwerth llyfr net								
Ar ddechrau'r flwyddyn	465	398	678	241	0	0	1,143	639
Ar ddiwedd y flwyddyn	447	465	733	678	2	0	1,182	1,143

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2011, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth

grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer Cronfa'r Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant.

Prydlesi ariannol

Roedd rhai o'r eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dal o dan brydles cyllid, fel y dangosir yn y tabl isod. Cynhwysir y ffigurau yn y tabl uchod.

TG ac offer arall	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	148	0
Ychwanegiadau	7	148
Gwarediadau	0	0
Ar ddiwedd y flwyddyn	155	148
Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn	33	0
Taliadau am y flwyddyn	45	33
Addasiad ar waredu	0	0
Ar ddiwedd y flwyddyn	78	33
Gwerth llyfr net		
Ar ddechrau'r flwyddyn	115	0
Ar ddiwedd y flwyddyn	77	115

Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid:

TG ac offer arall	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Symiau am brydlesi sy'n dod i ben mewn blwyddyn	26	45
Symiau am brydlesi sy'n dod i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	56	68
	82	113

Cynhwysir y rhwymedigaethau hyn yn y symiau sy'n daladwy (gweler nodyn 11).

9. Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	3,923	608
Symiau eraill sy'n dderbyniadwy	191	587
Blaensymiau staff	38	37
	4,152	1,232

Mae symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys swm o £174,500 sy'n ddyledus gan sefydliad treftadaeth. Mae hyn yn cynrychioli ad-daliad rhannol o grant yn dilyn newid mewn amgylchiadau'r sefydliad a gafodd grant. Cytunwyd ar amserlen ad-dalu ym mis Mawrth 2009 a pharhawyd i dderbyn taliadau yn unol â'r amserlen honno.

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn (2009-10: £174,500).

O'r symiau uchod, roedd £3,605,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 50 aelod o staff flaensymiau cyflogres yn ddyledus (roedd 47 ar 31 Mawrth 2009).

10. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau y CDLG:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn	378,977	452,562
Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol	257,721	246,745
Cyllid a dynnwyd i lawr gan CDL	(228,583)	(278,318)
Cyllid a drosglwyddwyd i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd	(43,388)	(43,389)
Adeniliad ar fuddsoddiad	2,843	2,007
Colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad	(352)	(630)
Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn	367,218	378,977

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan CGDG. Y DCMS sy'n buddsoddi'r arian hwn ac sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadnillion at y balans sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiâu cyfrifyddu'n cynnwys mwy o wybodaeth am y mater hwn.

11. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Symiau gweithredol sy'n daladwy	623	1,080
Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol	333	335
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,353	841
	2,309	2,256

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CDL. Gellir dadansoddi balansau symiau gweithredol eraill sy'n daladwy fel a ganlyn:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	3	171
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	3	17
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	0	0
Balansau allanol i lywodraeth	617	892
	623	1,080

12. Ymrwymadau grant

Ymrwymadau caled

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn	538,737	593,131
Trosglwyddiadau o ymrwymadau meddal	240,078	219,260
Dad-ymrwymadau	(8,473)	(13,027)
Ymrwymadau a dalwyd	(215,857)	(260,627)
Dygwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn	554,485	538,737

Ymrwymiadau meddal

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn	140,019	256,584
Ymrwymiadau meddal a wnaed	212,446	106,148
Dad-ymrwymiadau meddal	(2,293)	(3,453)
Trosglwyddiadau i ymrwymiadau caled	(240,078)	(219,260)
Balans a ddigwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn	110,094	140,019

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i ymgeiswyr yn y cyfnodau canlynol:

Ymrwymiadau caled

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Mewn blwyddyn	221,794	236,726
Mewn dwy i bum mlynedd	332,691	302,011
Mewn mwy na phum mlynedd	0	0
	554,485	538,737

Mae'r balans ymrwymiadau caled ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	45,161	42,538
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	264,647	278,058
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	2,820	3,172
Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r GIG	35	46
Balansau allanol i lywodraeth	241,822	214,923
	554,485	538,737

13. Ymrwymiadau

Mae cyfanswm ymrwymiadau CDL sy'n ddyledus o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Eiddo prydles fer		
Yn dod i ben ymhen blwyddyn	346	27
Yn dod i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	492	1,287
Yn dod i ben wedi hynny	10,574	10,961
	11,412	12,275
Prydlesi gweithredol eraill		
Yn dod i ben ymhen blwyddyn	6	2
Yn dod i ben ym mlynnyddoedd dau i bump	0	19
Yn dod i ben wedi hynny	0	0
	6	21

Ar 23 Mawrth 2011, llofnododd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd (PNH) ymrwymiad i feddiannu'r rhan fwyaf o lawr cyntaf ein prif Swyddfa yn 7 Holbein Place, Llundain. Ar 24 Mai, llofnododd y Pwyllgor isbrydles. Bydd yr isbrydles hon yn para oddeutu 13 mlynedd ac yn golygu bydd CGDG yn derbyn cyfanswm o £1.7 miliwn mewn rhent. Caiff rhan fechan o hon ei dyrannu ar gyfer gweithgareddau dosbarthu CGDG nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri. Bydd y Pwyllgor hefyd yn defnyddio man parcio, o dan drwydded, am £4,250 y

flwyddyn. Unwaith eto, caiff rhan fechan o hon ei dyrannu ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Gronfa nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri. Nid yw'r taliadau a ddisgwylir gan y Pwyllgor wedi'u didynnu o'r ymrwymadau a ddatgelwyd yn y tabl uchod.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 yn mynnu bod prydlesi eiddo'n cael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai bach iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Nid oes gan CDL unrhyw ymrwymadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

14. Nodiadau i'r Datganiad Llifoedd Arian

a) Cysoni diffyg gweithredol i fewnllif arian o weithgareddau gweithredu

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Diffyg gweithredol	(25,165)	(20,166)
Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian:		
- dibrisiad	676	545
- colled ar waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer	0	0
- cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau eraill	35	(4)
- symudiad yn y gronfa wrth gefn gwerth teg	(352)	(630)
- cynnydd/(gostyngiad) yn y gronfa wrth gefn ymrwymiad grant	15,748	(54,394)
- gostyngiad yn y balans yn yr CDLG	11,759	73,585
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau di-log sy'n dderbyniadwy	(2,921)	2,058
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy	54	(151)
Mewn-lif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	(166)	843

b) Gwariant cyfalaf

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Taliadau i gael asedau sefydlog anniriaethol	240	537
Taliadau i gael eiddo, peiriannau ac offer	351	807
	591	1,344

c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

	1 Ebrill 2010 £'000	Llifoedd arian £'000	31 Mawrth 2011 £'000
Arian yn y banc	3,604	(757)	2,847

15. Trafodion partiön perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y DCMS. Ystyrir bod yr adran hon yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri) wedi cael trafodion materol amrywiol, heblaw dyfarniadau grantiau, ag endid yr ystyrir mai'r Adran hon sy'n ei noddi – y Gronfa Loteri Fawr. Fe wnaeth y Gronfa Loteri Fawr weithredu'r cynllun Arian i Bawb ar ran nifer o ddosbarthwyr y Loteri, ac rydym yn parhau i wneud cyfraniad tuag at eu costau gweinyddol wrth iddynt fonitro dyfarniadau presennol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan CDL ddyled o £8,000 i'r Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys cronïadau ar gyfer anfonebau heb eu derbyn. Cyfrannodd y Gronfa Loteri Fawr tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl, yn ogystal â thuag at gostau gweinyddol y rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan y Gronfa Loteri Fawr ddyled o £3,603,813 i CDL. Costau gweinyddol oedd £129,298 ohono ac roedd £3,474,515

ar gyfer eu cyfran nhw o'r taliadau grant. Bu trafodion hefyd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru gan fod Cadw yn rhoi cyngor arbenigol ac yn monitro ar ein rhan.

Ar 23 Mawrth 2011, llofnododd Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd (PNH) ymrwymiad i feddiannu'r rhan fwyaf o lawr cyntaf ein prif swyddfa yn 7 Holbein Place, Llundain. Mae PNH yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ar 24 Mai, llofnododd y PNH isbrydles. Bydd yr isbrydles hon yn para oddeutu 13 mlynedd ac yn golygu bydd CGDG yn derbyn cyfanswm o £1.7 miliwn mewn rhent. Ar ben hynny, bydd cyfraniadau tuag at gostau gwasanaeth o oddeutu £62,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2010–11. Ar 31 Mawrth 2011, nid oedd ceiniog yn ddyledus am gostau gwasanaeth. Bydd PNH hefyd yn defnyddio man parcio, o dan drwydded, am £4,250 y flwyddyn.

Alison Millward, sy'n aelod o banel arbenigwyr yr ymddiriedolwyr am geisiadau am arian Loteri, fu'n monitro prosiectau ar gyfer nifer o grantiau ar ran CDL yn ogystal â rhoi hyfforddiant i staff. Derbyniodd £8,440 yn ystod y flwyddyn am wneud y gwaith hwn.

Fel y nodir isod, roedd gan ymddiriedolwyr CGDG gysylltiadau â chyrff a dderbyniodd grantiau Loteri gan CGDG. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gwlad a rhanbarth fuddiannau mewn cyrff a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor neu argymhellion i Ymddiriedolwyr. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgorau ac arbenigwyr ar baneli ddatgan eu cysylltiad ar ddechrau pob cyfarfod a gadael yr ystafell pan fo'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod mewn unrhyw ran o'r cyfarfod. Nid ydynt yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod cais am grant neu unrhyw benderfyniadau dilynol am y grant hwnnw. Ceir rheolau llym hefyd o ran yr amgylchiadau y caiff ymddiriedolwyr ac aelodau o'r pwyllgor dderbyn gwaith cyflogedig am waith gan rywun sy'n derbyn grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na ddylanwadodd yr unigolion ar y broses benderfynu mewn unrhyw achos.

Cynhaliwyd trafodion partïon perthynol yn 2010–11 ar ffurf taliadau grant, sy'n gysylltiedig â dyfarniadau a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae trafodion partïon perthynol ar gyfer dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol wedi'u datgelu yng nghyfrifon y blynyddoedd hynny.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Manceinion

Grant o £138,500 a phas cam un o £1,900,000 – Parc Alexandra, Manceinion. Virginia Tandy oedd Cyfarwyddwr Diwylliant Cyngor Manceinion.

Yr Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol

Virginia Tandy oedd Cyfarwyddwr Diwylliant Cyngor Manceinion a fu'n trafod dyfodol yr amgueddfa. Derbyniodd yr amgueddfa grant o £7,565,000 ym 1997 yn ogystal â grant ychwanegol o £1,819,000 yn 2001. Yn 2010, cytunodd yr ymddiriedolwyr i ganiatáu i'r amgueddfa gael ei symud o Preston i Fanceinion ac na fyddai arian grant yn cael ei hawlio'n ôl.

Oriel Gelf Whitworth, Prifysgol Manceinion

Grant o £8,000. Virginia Tandy oedd Cyfarwyddwr Diwylliant Cyngor Manceinion sy'n berchen ar brydles y parc sy'n gartref i'r oriel.

Natural England

Grant o £95,400 a phas cam un o £1,772,500 – Wet and Wonderful – The Heritage of the Avalon Marshes. Datganwyd diddordeb gan Doug Hulyer am ei fod yn aelod o Fwrdd Natural England. Ers cyflwyno'r grant i Natural England, fe'i cyflwynwyd ymlaen i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwlad yr Haf.

Aelodau pwyllgor

Partneriaeth Cyngori Amgueddfeydd Swydd Caergrawnt

Grant o £164,000. Datganwyd diddordeb gan Maggie Appleton gan fod Canolfan Amgueddfeydd Dwyrain Lloegr yn rhoi arian partneriaeth. Bu'n arwain Canolfan Amgueddfeydd Dwyrain Lloegr tan 2009 ac mae wedi bod yn gysylltiedig â'r ganolfan ers hynny yn rhinwedd ei swydd yn Brif Weithredwr Amgueddfeydd Luton.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Suffolk

Pas cam un o £338,600 – Rhwydweithio Natur. Datganwyd diddordeb gan Michael Allen fel Cadeirydd Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.

Cyngor Southend-on-Sea

Grant o £18,900 a phas cam un o £855,000 – Gweithio tuag at Dirwedd Byw Coetiroedd Hynafol 'Hadleigh and Daws Heath'. Datganwyd diddordeb gan Michael Allen fel Cadeirydd Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt gan fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Essex yn bartner arweiniol gyda'r ymgeisydd.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Hertford a Middlesex

Grant o £423,500 – Coetiroedd i Bobl a Bywyd Gwyllt. Datganwyd diddordeb gan Michael Allen fel Cadeirydd Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. Dywedodd Roy Swanston ei fod yn ffrind personol i Drysorydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Hertford a Middlesex.

Ymddiriedolaeth Gwarchod Eglwysi

Grant o £82,500 a phas cam un o £1,501,800 – Bywyd Newydd i Gapel Sant Nicholas. Datganwyd diddordeb gan Anne Mason fel rheolwr y prosiect.

Bwrdeistref Llundain Waltham Forest

Grant o £80,000 a phas cam un o £1,523,000 – Datblygiad Oriel William Morris. Benedetta Tiana yw ymgynghorydd dehongli'r prosiect.

Partneriaeth Calon y Ddinas

Grant o £43,400 a phas cam un o £1,129,800 – Yr Hen Newcastle – Man Cychwyn yr Hanes. Lindsay Allason-Jones yw Is-lywydd Cymdeithas Henebion Newcastle upon Tyne. Roedd y Gymdeithas wedi cyflwyno cais am y prosiect ar y cyd.

Plaza Stockport

Cynnydd o £100,000 mewn grant – Adfer y Plaza yn Stockport. Datganwyd diddordeb gan Tiffany Hunt gan fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect a hi oedd Cyfarwyddwr Rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng ngogledd-orllewin Lloegr tan 2010.

Porth Clyde

Grant o £51,000 a phas cam un o £749,000 – Ailddatblygu Theatr Olympia. Datganwyd diddordeb gan Bridget McConnell gan fod Diwylliant a Chwaraeon Glasgow yn disgwyl mai nhw fyddai'n defnyddio'r adeilad yn y pen draw. Bridget McConnell yw Prif Weithredwr Diwylliant a Chwaraeon Glasgow.

Cyngor Dwyrain Renfrew

Grant o £123,200 a phas cam un o £1,886,000 – Rouken Glen Park. Datganwyd diddordeb gan Sheena Wurthmann. Fel aelod o bwyllgor Carts Greenspace, bu'n gysylltiedig â pharatoi'r cais.

Cymdeithas Amgueddfa Arundel

Grant o £888,000 – Arundel Revealed – Prosiect Datblygu Amgueddfa Arundel. Datganwyd diddordeb gan Marilyn Scott am ei bod wedi cynghori'r prosiect fel ymgynghorydd

Cymdeithas Faversham

Grant o £238,700 – No. 12 Preston Street. Datganwyd diddordeb gan Jennie Fordham am ei bod wedi gweithio gyda'r ymgeisydd ar ddatblygu strategaeth ar gyfer eu gwaith gydag ysgolion a grwpiau eraill.

Ymddiriedolaeth Adfer Llongau Bychain Dinkirk

Grant o £28,400 a phas cam un o £916,000 – Her i'r Dyfodol. Datganwyd diddordeb gan Jennie Fordham am ei bod wedi cynghori'r ymgeisydd am weithio gydag ysgolion ar un adeg.

Elusen Pier Hastings Ltd

Grant o £357,400 a phas cam un o £8,402,000 – Pier Hastings. Datganwyd diddordeb gan Alistair Fairley am ei fod yn adnabod sawl un o'r bobl sy'n gysylltiedig ac wedi bod yn gyfarwyddwr y sefydliad oedd yn cyflwyno cais.

Amgueddfa a Gardd Tŷ'r Offeiriad

Grant o £442,000 – y Ganolfan Ddysgu Agored. Datganwyd diddordeb gan Sam Hunt am ei fod wedi cynghori'r ymgeisydd yn gynharach yn y prosiect.

English Heritage

Grant o £10,000,000 – Gwelliannau Amgylcheddol Côr y Cewri. Datganwyd diddordeb gan Tony Richardson am ei fod yn gyfarwyddwr rhanbarthol yr RSPB, a oedd â chytundeb rheoli ar gyfer tir o fewn Safle Treftadaeth y Byd Côr y Cewri, a oedd wedi cyfrannu at ei gynllun rheoli.

Ymddiriedolaeth Gwarchod Cullampton Walronds

Grant o £1,694,000 – y Walronds. Datganwyd diddordeb gan Simon Timms am ei fod yn gweithio i Gyngor Sir Dyfnaint, sy'n rhoi arian partneriaeth, a hefyd am ei fod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau blaenorol am y prosiect.

Eglwys Gadeiriol Caerwysg

Grant o £45,800 a phas cam un o £516,800 – Pennod Arall – Pennod 2. Datganwyd diddordeb gan Hilary Bracegirdle am ei bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori Ffabrig oedd yn gyfrifol am gynnwys y llyfrgell ac roedd ganddi rôl ym mhroses gymeradwyo'r cynlluniau eglwysig.

Sefydliad Brenhinol Cernyw

Pas cam un o £225,000 – Gwareiddiadau Hynafol – Cynulleidfaoedd Newydd. Datganwyd diddordeb gan Hillary Bracegirdle am ei bod yn Gyfarwyddwr Sefydliad Brenhonol Cernyw.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Grant o £2,500,000 – Castell Drogo – Dyluniad am Oes. Datganwyd diddordeb gan Simon Timms oherwydd bu'n un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol tan yn ddiweddar.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Grant o £15,000 a phas cam un o £1,500,000 – Ail-greu Llys Croome. Datganwyd diddordeb gan Harriet Devlin gan fod ei gwr yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn gysylltiedig â Llys Croome.

Cyngor Dorset

Grant o £40,000 a phas cam un o £400,000 – Man Geni Hardy. Datganwyd diddordeb gan Simon Timms gan fod y cais yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu'n un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol tan yn ddiweddar ac mae'n parhau i fod yn aelod o'r Cyngor Ymgynghorol.

Treftadaeth Teign

Cynnydd o £43,600 mewn grant – Prosiect Treftadaeth Teign. Datganwyd diddordeb gan Simon Timms gan fod ei gyn-gyflogwr, Cyngor Sir Dyfnaint, wedi rhoi cyngor a chymorth ariannol i'r prosiect.

Cyngor Gwynedd

Grant o £706,400 – Partneriaeth Tirlun Llŷn. Datganwyd diddordeb gan Rhian Thomas gan fod ei chyflogwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yn rhoi arian partneriaeth i'r prosiect, Datganwyd diddordeb gan Madeleine Havard hefyd gan ei bod yn aelod o fwrdd dewis prosiectau Prosiect Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ac roedd un o bartneriaid y prosiect, Plas Glyn y Weddw, wedi cyflwyno cais am arian.

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Birmingham

Pas cam un o £514,300 – Cam Un Prosiect Coffin Works. Datganwyd diddordeb gan Les Sparks fel un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Birmingham.

Ymddiriedolaeth Thinktank

Grant o £894,000 – Made in Birmingham. Datganwyd diddordeb gan Ian Grosvenor gan mai ef yw cynrychiolydd Prifysgol Birmingham ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Thinktank.

Cyngor Bradford

Grant o £147,500 a phas cam un o £3,206,000 – Cliffe Castle Park. Datganwyd diddordeb gan David Kennedy fel cyn-brif weithredwr Cyngor Bradford.

Cyngor Bradford

Grant o £2,000,000 – Canol Tref Keighley. Datganwyd diddordeb gan David Kennedy fel cyn-brif weithredwr Cyngor Bradford.

Cyngor Rotherham

Mae Ken Wyatt yn aelod etholedig o Gyngor Rotherham. Derbyniodd y cyngor grant o £590,000 i adfer Castell Boston yn 2009. Yn 2011, cytunodd CDL Swydd Efrog a phwyllgor Humber i leihau maint y prosiect gan olygu bod canran cyfraniad CDL tuag at gost gyffredinol y prosiect wedi cynyddu.

Panel arbenigol

Amgueddfa Geffrye

Grant o £518,500 a phas cam un o £10,400,000 – Amgueddfa'r Cartref. Dywedodd Alan Baxter fod ei gwmni, Alan Baxter & Associates, wedi bod yn flaenllaw yn datblygu'r cais.

16. Offerynnau ariannol

Mae datgeliad llawn o dan IFRS 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau', yn Sylwadau'r Rheolwyr.

17. Cronfa wrth gefn gwerth teg

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	(630)	549
Gwredu enillion/(colled) ailbrisio ar falans CDLG	630	(549)
Colled ailbrisio ar ddiwedd y flwyddyn ar falans CDLG	(352)	(630)
Ar ddiwedd y flwyddyn	(352)	(630)

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad y balans yn CDLG (gweler nodyn 10). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodiadau 7 ac 8) yn berthnasol.

18. Darpariaeth

	2010-11 £'000	2009-10 £'000
	35	0

Derbyniwyd hawliad gan gyn-weithiwr ym mis Mai 2011. Rydym wedi neilltuo darpariaeth ar gyfer unrhyw daliad y gallem ei gynnig i roi terfyn ar yr hawliad.

19. Datganiad ar golledion

Gwnaeth CDL golledion drwy ddileu grantiau gwerth £69,058 yn ystod y flwyddyn. (2009-10: £126,562).

Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i CDL o dan Ddeddf 1993. Daeth y cyfarwyddiadau presennol i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru; mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r DU, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 48–49.

a) Anghenion y dreftadaeth

"Asesiad CDL o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw."

Rhwng 31 Ionawr a 26 Ebrill 2011, cynhaliwyd ymgynghoriad strategol gennym o'r enw 'Siapio'r Dyfodol – ar gyfer treftadaeth, ar gyfer pawb' i lywio ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a'n sefyllfa o 2013 ymlaen. Cynhaliwyd trafodaethau blaenorol yn ystod 2010 gyda phartneriaid yn y sector treftadaeth, asiantaethau strategol a'n Bwrdd ynghylch anghenion treftadaeth a'n blaenoriaethau o safbwynt ariannu. Gofynnodd yr ymgynghoriad rai cwestiynau penodol am yr angen am arian mewn gwahanol rannau o'r sector treftadaeth ac fe gyhoeddir y canfyddiadau yn nes ymlaen eleni. Cynhaliwyd ymchwil ac ymgynghoriad gennym hefyd i amlinellu effaith y gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus ar dreftadaeth yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Amcangyfrifwyd y byddai hyd at £700 miliwn yn llai bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf ym mhob rhan o'r sector a'r DU.

Mae'r galw am arian Loteri ar gyfer treftadaeth wedi parhau'n gryf. Gan fod tocynnau'n parhau i gael eu gwerthu'n dda, rydym wedi gallu defnyddio incwm ychwanegol i ymateb i hyn yn ogystal â chynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer tirweddau, trefluniau, mannau addoli a sgiliau treftadaeth yn 2010–11.

b) Cynnwys y cyhoedd

"Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisiâu, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Wrth ddatblygu ein strategaeth ariannu, rydym yn ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri, er mwyn cael safbwynt y 'defnyddiwr olaf' ar y prosiectau a ariennir gennym, i gyfrannu at ein polisi a'n harfer, ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'n gwaith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad strategol o bwys gennym yn 2010–11 o'r enw 'Siapio'r Dyfodol – ar gyfer treftadaeth, ar gyfer pawb' (31 Ionawr – 26 Ebrill 2011) i lywio ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a'n sefyllfa o 2013 ymlaen (er ein bod wedi ymrwymo i gyflwyno rhai newidiadau yn gynharach pe byddai cefnogaeth ddigonol i wneud hynny). Roedd yr ymgynghoriad ar-lein hwn hefyd yn cynnwys holiadur byrrach, gyda chymorth ymgyrch yn y cyfryngau, oedd yn targedu'r cyhoedd ac yn gofyn iddynt ba dreftadaeth yr oedd pobl yn ei gwerthfawrogi yn eu hardaloedd lleol ac a ddylem barhau i gynnig arian drwy gyfrwng amrywiaeth eang o grantiau. Cafwyd dros 150 eitem yn y cyfryngau, gan gynnwys cyfweiliadau radio lleol ac amrywiaeth helaeth o gyhoeddusrwydd ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Caiff canfyddiadau'r rhain eu defnyddio ochr yn ochr â'r ymatebion i'r prif ymgynghoriad.

Cafwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn ar y we. Roedd croeso i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad oedd yn gofyn am farn am ein fframwaith strategol. Roeddem hefyd yn gofyn am farn pobl am sut rydym yn gweithio, newidiadau i'r rhaglenni grant cyfredol, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleoedd a mentrau newydd i ymateb i heriau strategol, o dreftadaeth ddigidol i newid yn yr hinsawdd. Cynhaliwyd cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus hefyd ar gyfer y cyhoedd, ymgeiswyr posibl, y rhai sydd wedi derbyn grant yn ogystal â rhanddeiliaid yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr i drafod y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad. Cymerodd

dros 1,500 o bobl ran. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn nes ymlaen yn y gwanwyn ac yn eu defnyddio i lywio datblygiad ein strategaeth ar gyfer 2013–19. Cyhoeddir y strategaeth hon yng ngwanwyn 2012.

Rydym wedi parhau i roi ein Strategaeth Cyfranogiad Pobl Ifanc pum mlynedd ar waith sy'n cynnig cyfleoedd o safon i gynnwys pobl ifanc yn ein gwaith. Un o uchafbwyntiau eleni oedd y ffilm chwarter awr a gomisiynwyd yn llwyddiannus i hyrwyddo ein rhaglen Gwreiddiau Ifanc. Bu pedwar unigolyn ifanc o academi cynhyrchwyr ffilmiau ifanc Northern Stars yn ymchwilio, yn ysgrifennu, yn cyfarwyddo ac yn ffilmio'r cynhyrchiad y gall ymgeiswyr posibl ei wyllo ar ein gwefan. Mae pobl ifanc eraill wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiad gwaith, er enghraifft drwy roi cyngor i ni am ein tudalen Facebook a chynorthwyo i feirniadu cystadleuaeth ffotograffiaeth treftadaeth ranbarthol i bobl ifanc.

Rydym wedi parhau â'n polisi recriwtio agored i'n pwyllgorau ranbarthol a gwledig, ac yn 2010–11 penodwyd 19 o aelodau pwyllgor newydd, a'u rôl yw gwneud penderfyniadau ar ddyfarniadau hyd at £1miliwn yn eu hardal.

c) Mynediad a chyfranogiad

"Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheiny nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd ar y cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig."

Mae helpu "mwy o bobl, ac ystod ehangach o bobl, i gymryd rhan weithredol yn eu treftadaeth a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u treftadaeth" yn un o'n tair nod strategol. Rydym wedi cryfhau ein harweiniad i annog mwy o sefydliadau treftadaeth i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a chynnwys pobl wrth ddatblygu prosiectau sy'n effeithio ar eu cymunedau. Yn 2010–11, mae ein harian wedi galluogi cannoedd o brosiectau i wneud safleoedd treftadaeth, adeiladu hanesyddol, amgueddfeydd a thirweddau yn fwy hwylus. Mae'r prosiectau hyn wedi ymestyn allan i bobl i'r ardaloedd

lle maent yn byw, symleiddio'r broses o archwilio safleoedd, yn ogystal â dehongli treftadaeth mewn ffyrdd sy'n bodloni anghenion amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Ar gyfartaledd, fe wnaeth ymweliadau â safleoedd treftadaeth gynyddu ychydig dros 50% ar ôl cael cyllid gan CDL, ac mae tystiolaeth glir bod y cyllid hwn wedi arwain at brofiadau y mae ymwelwyr yn eu mwynhau mwy.

Rydym yn ymdrechu i annog grwpiau cymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli pobl sy'n llai tebygol o elwa ar gyfleoedd treftadaeth, i arwain y gwaith o astudio eu treftadaeth eu hunain. Eleni, cyflwynwyd nod corfforaethol strategol yn ein cynllun busnes i gynyddu amrywiaeth wrth gyflwyno grantiau, llywodraethu ac yn y gweithle. Mewn cysylltiad â'r grantiau rydym yn eu cyflwyno, mae rhai o'n timau datblygu gwledig a ranbarthol wedi enwebu pobl o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig (BAME) fel grŵp cymdeithasol sy'n cael blaenoriaeth, ac maent yn cael rhagor o gymorth i fanteisio ar ein harian. Er 1994 rydym wedi dyfarnu dros £121miliwn i dros 2,800 o brosiectau sy'n archwilio ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y DU; roedd 54% o'r prosiectau hyn yn cael eu harwain gan grwpiau BAME. Rydym wedi ariannu prosiectau sy'n galluogi pobl anabl a phobl o grwpiau cymdeithasol-economaidd is i gadw cofnod a dathlu eu hanes a sicrhau bod eu storïau'n cael rhagor o sylw cyhoeddus. Rydym wedi rhoi camau ar waith i wneud yn siŵr bod deunyddiau cyhoeddusrwydd a'n gwefan yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU a'r prosiectau rydym yn eu hariannu.

d) Plant a phobl ifanc

"Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â hwy."

Mae bron pob un o brosiectau CDL yn ymgysylltu plant a phobl ifanc â'n treftadaeth amrywiol – naill ai fel ymwelwyr, fel cyfranogwyr, fel gwirfoddolwyr neu fel y

rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae llawer o brosiectau yn targedu teuluoedd yn benodol ac mae niferoedd helaeth o blant ysgol yn manteisio ar ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn rhan o brosiectau a ariennir gan CDL bob blwyddyn. Er 1994, rydym wedi ariannu dros 1,100 o swyddi ym myd addysg a thros 650 o leoedd i gynorthwyo dysgu ffurfiol. Mae arolygon o brosiectau a ariennir gan CDL wedi canfod bod 95% o bobl yn ymweld gyda phlant dan 18 oed o'r farn bod cyfleusterau da ar gyfer plant.

Mae ein rhaglen ariannu Gwreiddiau Ifanc wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc 13 i 25 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a diddorol wrth archwilio treftadaeth. Er 2002, rydym wedi gwneud dros 1,150 o ddyfarniadau Gwreiddiau Ifanc, a gwnaed 114 o'r rheiny yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r prosiectau hyn yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl ifanc, o gymunedau gwledig i ystadau tai trefol, yn ogystal â phobl ifanc anabl a'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae adborth gan bawb sy'n cymryd rhan yn dangos bod y prosiectau hyn yn helpu pobl ifanc i gynyddu hyder, gwella sgiliau a datblygu dyheadau, yn ogystal â brwdfrydedd tuag at dreftadaeth.

e) Cymunedau

"Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau ein cymunedau."

Mae ein golwg o dreftadaeth yn un eang, cynyddol a chynhwysol. Credwn y gall deall, trysori a rhannu ein hanesion amrywiol newid bywydau, dod â phobl ynghyd a darparu sylfaen i gymdeithas hyderus, fodern. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi cyngor penodol am weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo partneriaethau mwy cyfartal ac effeithiol rhwng cymunedau a sefydliadau treftadaeth. Rydym hefyd wedi annog mwy o bobl i gymryd rhan amlwg mewn prosiectau sy'n dod â'u treftadaeth i'r amlwg ac yn gwella eu hardal leol.

Dengys ein hymchwil fod gweithgareddau prosiect CDL yn dod â chymunedau amrywiol

ynghyd i rannu'u profiadau, er enghraifft, trwy brosiectau hanes llafar. Mae'r grwpiau gwahanol hyn yn cael eu tynnu ynghyd trwy brosiectau treftadaeth yn cryfhau'r rhwymau ymddiriedaeth rhwng cymunedau gwahanol ac yn gwella cysylltiadau rhwng cenedlaethau. Rydym yn gwybod bod pobl ifanc yn benodol wedi cwrdd â phobl o genedlaethau a chymunedau eraill ac yn ystyried hyn yn rhan bwysig a phleserus o'u prosiect. Mae llawer o brosiectau'n adeiladu gweithgareddau ar y synnwyr o hunaniaeth a lle y mae treftadaeth leol yn eu creu, ac mae tystiolaeth bod y prosiectau hyn wedi arwain at fwy o ymdeimlad o berchenogaeth gymunedol a balchder dinesig.

f) Gwirfoddolwyr

"Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, yn ein treftadaeth."

Rydym yn annog gwirfoddoli'n weithredol trwy ein nodau strategol, ac mae dros 99% o'r grantiau a ddyfarnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi creu cyfleoedd i wirfoddoli. Mae hyn yn cynnwys prosiectau'n cael eu harwain gan sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, prosiectau sy'n canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr, a phrosiectau lle mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at raglenni ehangach gwarchod treftadaeth a dysgu am dreftadaeth.

Rydym wedi cynnal rhaglen ymchwil tair blynedd i nodi effaith gymdeithasol gwirfoddoli mewn prosiectau a ariennir gan CDL. Mae'n dangos bod gwirfoddolwyr o bob oed wedi meithrin amrywiaeth eang o sgiliau ym maes treftadaeth a sgiliau meddal yn ogystal ag ennill profiad a hyder i wneud gwaith cyflogedig a dilyn gyrfaedd newydd, neu barhau i fod yn weithgar yn eu hymddeoliad. Maent hefyd yn teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth ac yn falch o fod wedi 'gwneud gwahaniaeth'. Rydym am i bawb fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli yn ein prosiectau ac annog rhagor o amrywiaeth wrth wirfoddoli. Rydym yn cefnogi prosiectau sy'n recriwtio pobl ifanc, pobl anabl a phobl o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig a chymdeithasol-economaidd fel gwirfoddolwyr.

Rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi arferion gorau mewn prosiectau fel bod gwirfoddolwyr yn cael y profiad gorau posibl. Mae ein harweiniad a'n proses ymgeisio yn nodi cyngor a disgwyliadau clir ar gyfer rheoli a datblygu gwirfoddolwyr, ac ad-dalu costau. Yn benodol, sicrhawn fod prosiectau'n cynnwys cynlluniau a chyllidebau priodol ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr.

g) Sgiliau

"Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau."

Rydym yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo datblygu sgiliau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â phob un o'n prosiectau er mwyn sicrhau y cânt eu cyflwyno i'r safon uchaf ac er budd yr unigolion sy'n gysylltiedig. Yn benodol, gofynnwn i bawb sy'n cyflwyno cais am grant sydd werth dros £1miliwn gynnwys canlyniadau hyfforddi. Er enghraifft, rydym yn aml yn ariannu cyfleoedd ar ffurf prentisiaethau yn rhan o'r prosiectau cyfalaf.

Parhawn i ariannu rhaglenni targedig sy'n cynnig hyfforddiant yn y gwaith o ansawdd uchel, ac eleni fe wnaethom fuddsoddi £17miliwn yn ein rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, gan dreblu'r swm a neilltuwyd gan ein Hymddiriedolwyr yn wreiddiol, i fodloni'r galw gan y sector. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd 54 o brosiectau yn cyflwyno dros 800 o leodedd hyfforddi o safon am dâl ledled y DU i fodloni amrywiaeth eang o anghenion sgiliau treftadaeth gan gynnwys defnyddio cyfryngau digidol a rheoli'r newid yn yr hinsawdd. Un o nodau pwysig rhaglen Sgiliau i'r Dyfodol yw ceisio amrywio gweithlu'r sector treftadaeth a bydd y prosiectau yn creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc, pobl anabl a grwpiau eraill a dangynrychiolir ar hyn o bryd. Mae ein rhaglen Bwrsariaethau Hyfforddi sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n canolbwyntio'n bennaf ar sgiliau cadwraeth, wedi darparu dros 400 o leoliadau hyfforddi erbyn hyn. Mae ein gwerthusiad o'r rhaglen yn parhau i ddangos ei bod yn llwyddiannus; mae 87% o'r bobl sydd wedi cwblhau lleoliadau wedi symud ymlaen i gael swyddi yn y sector treftadaeth.

h) Gwerth cyhoeddus

"Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth cyhoeddus ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn eleni. Mae gennym ymagwedd benodol at gyllid y Loteri sy'n seiliedig ar yr hyn y mae pobl yn rhoi gwerth arno. Mae ein hasesiad o geisiadau yn ystyried y buddion y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth a phobl, a'u heffeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Rhown flaenoriaeth i sefydliadau dielw. Bu cynnydd graddol yng nghyfran y prosiectau a gynhelir gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, o 40% yn 2002 i 56% yn 2009–10. Yn gyffredinol, mae 50% o'n harian wedi mynd i'r sector gwirfoddol neu sefydliadau eglwysig dros yr un cyfnod (mae'r gweddill wedi mynd i awdurdodau lleol a sefydliadau bychain eraill yn y sector cyhoeddus). Canran fach iawn o'r cyfanswm yw'r dyfarniadau a allai roi budd i berchnogion preifat treftadaeth, ac maent yn gyfyngedig i elfennau o gynlluniau ardal lle mai corff cyhoeddus yw prif dderbynnnydd y grant, a grantiau bach a wneir o dan ein rhaglen Eich Treftadaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n bodloni ein nodau cyfranogiad a'n nodau dysgu.

i) Datblygu cynaliadwy

"Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Yn ein cynllun strategol cyfredol, mae gennym ffocws cryf ar effaith amgylcheddol ac ar ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy. Mae'n rhaid i brosiectau ddweud wrthym nawr sut y byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnyddio adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff adeiladu, pridd caffael pren cynaliadwy, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr.

Yn ein hymgyngghoriad strategol, y byddwn yn ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn y gwanwyn, gofynnwyd pa rôl y dylem ei chwarae o ran lleihau colled a difrod o ganlyniad i newid

yn yr hinsawdd, ac o ran cynorthwyo prosiectau sy'n dangos arweiniad ac arloesedd wrth leihau effaith newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Rydym yn bwriadu parhau i gryfhau ein dull o asesu cynigion i leihau effaith newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol eraill yn rhan o'n harfarniad cyffredinol o brosiectau.

j) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

"Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir."

Mae ychydig o dan hanner (43%) o holl gyllid CDL wedi'i ymrwymo i'r 25% o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yn y DU (yn seiliedig ar y mynegeion mwyaf diweddar o amddifadedd lluosog ar gyfer Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae ein hymchwil dros y pum mlynedd diwethaf wedi dangos y ffyrdd y mae prosiectau CDL wedi creu buddion cymunedol fel gwell cydlyniad a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae gennym dimau datblygu yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon ac yn holl ranbarthau Lloegr i annog ceisiadau o ansawdd da o ardaloedd neu grwpiau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cynrychioli gystal yn ein cyllido hyd yma. Ar gyfer y cynllun strategol cyfredol, rydym wedi nodi blaenoriaethau daearyddol a chymdeithasol newydd fel ffocws ein gwaith datblygu.

Fel ffordd o ledaenu cyllid yn deg, rydym yn adolygu nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi derbyn cryn dipyn yn llai na chyfartaledd y DU, o ran gwerth dyfarniadau grant y pen. Mae nifer yr awdurdodau lleol lle'r oedd dyfarniadau grant y pen yn is na chwarter cyfartaledd y DU bellach wedi gostwng i 75 (18%).

k) Gweithio ar y cyd

"Dymunoldeb gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni elfennau o strategaeth y Gronfa."

Drwy Fforwm y Loteri ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym yn parhau i weithio gydag eraill sy'n dosbarthu arian y Loteri mewn mentrau ar y cyd ac i wneud yn siwr bod gweithgareddau'n cael eu cydlynu'n agos.

Yn dilyn adolygiad y Llywodraeth o gyrff cyhoeddus anadrannol, rydym wedi cydweithio'n agos ag English Heritage i adolygu ein cyfrifoldebau a'n meysydd gweithredu penodol fel nad oes unrhyw ddyblygu. Rhoddodd English Heritage y gorau i ariannu ein Cynllun Mannau Addoli ar y cyd yn Lloegr eleni, ond bydd yn parhau i weinyddu'r rhaglen tan ddiwedd ein cynllun strategol cyfredol yn 2013. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â Chyngor Celfyddydau Lloegr (ACE) eleni i wneud yn siwr bod eglurder o ran yr arian Loteri a roddir i amgueddfeydd a llyfrgelloedd ar ôl i ACE ysgwyddo'r cyfrifoldebau dros y rhan hon o'r sector.

l) Cydnabyddiaeth

"Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri, gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Nid yw ein hymagwedd at hyn wedi newid eleni. Rydym yn rhoi pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o fanteision arian y Loteri i dreftadaeth ac rydym yn pennu gofyniad bod pob ymgeisydd yn cydnabod ein grantiau'n briodol yn ystod cyfnod datblygu'u prosiect, wrth gyflwyno'r prosiect, ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Cynhyrchwn yr arweiniad *Sut i gydnabod eich grant*, sy'n rhan o'n telerau grant safonol ac yn cynnal ymweliadau ar ôl cwblhau â sampl o brosiectau ar draws y DU, er mwyn cadarnhau bod cydnabyddiaeth addas i gyllid y Loteri yn cael ei rhoi.

m) Cyllid partneriaeth

“Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniad o fath arall o ffynonellau eraill, i’r graddau bod hyn yn rhesymol i’w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.”

Rydym wedi newid ein polisi ynghylch arian partneriaeth eleni. Mae hyn o ganlyniad i’r anawsterau y mae ymgeiswyr a’r rhai sy’n derbyn grant wedi’u cael gan fod ffynonellau arian yn dod i ben neu am nad oedd arian partneriaethau eraill ar gael mor rhwydd â’r disgwyl. Erbyn hyn, gofynnwn am isafswm o 5% (nid 10%) o arian partneriaeth ar gyfer grantiau sydd werth hyd at £1miliwn, a 10% (nid 25%) ar gyfer grantiau sydd werth dros £1miliwn. Byddwn hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr ystyried gwerth pum mlynedd o gostau rheoli a chynnal ychwanegol ar gyfer ein grantiau cyffredinol, sef y Grantiau Treftadaeth. Dyma fydd ein hymagwedd hyd at 2013 ac rydym wedi ymgynghori am beth ddylai lefel yr arian partneriaeth fod yn ein hymgyngoriad strategol.

n) Penderfyniadau

“Yr angen (a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig, (b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais, a (c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau.”

Nid yw ein hymagwedd at y materion hyn wedi newid eleni.

- a) Mae’r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Cyfyngwn ein cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy’n cynnwys gweithgareddau. Mae tri chwarter y prosiectau’n cael eu cwblhau ar amser.
- b) Ceisiwn wybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae’r prosiectau a gyflwynant yn bodloni ein blaenoriaethau strategol, ynghyd â rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff y prosiect ei gyflwyno er mwyn i risgiau a chyfleoedd gael eu

cydbwysu’n llawn. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais a chyfraniad gan ein Panel Arbenigol os bydd angen.

- c) Gofynnwn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi’i ddadansoddi yn gostau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac sy’n dangos pa gyfraniad y maent yn cynnig ei wneud o’u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Gofynnwn am ragolwg llif arian, ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagolygon incwm a gwariant am 10 mlynedd, gan ddangos sut mae’r ymgeisydd yn cynllunio i gynnal y prosiect yn y tymor hir. Cyhoeddwn arweiniad ar hyn, ac arweiniad ar arfarniad ariannol ac arfarniad marchnad ar gyfer prosiectau mwy o ran maint a mwy cymhleth.

o) Cynllunio a rheoli prosiectau

“Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy’n dangos sut bydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw’n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod yr arfarnu a’r rheoli ar gyfer prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.”

Nid yw ein hymagwedd at y materion hyn wedi newid eleni.

- a) Mae’r ffurflen gais ar gyfer ein rhaglen Grantiau Treftadaeth yn gofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagolygon llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer grantiau dros £1miliwn, gofynnwn am arfarniad ariannol ac arfarniad marchnad llawn. Gofynnwn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod ganddo ddyfodol hyfyw, ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau sy’n golygu gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, gofynnwn am

Gynllun Rheoli a Chynnal a Chadw sy'n nodi manylion sut bydd yr ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau ei brosiect, a byddwn yn cyhoeddi arweiniad ar sut i gynhyrchu hyn.

- b) Gofynnwn i bob ymgeisydd ddangos y bydd eu prosiectau'n cael eu rheoli'n dda, ac y byddant yn bodloni safonau perthnasol yr ystyrir eu bod yn arfer da ar gyfer y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf cynhwyswn bwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gyfnodau RIBA) ac mae'r holl brosiectau cenedlaethol yn mabwysiadu Safonau Adolygu Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Defnyddiwn fonitoriaid allanol ar bob prif brosiect er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i CDL yn ddealladwy ac yn cael eu rheoli, bod arfer gorau'n cael ei gyflawni yn yr holl feysydd critigol, a bod adrodd a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

Cyfarwyddiadau polisi yng Nghymru

Mae cyfarwyddyd polisi B yn pennu gofyniad bod CDL yn ystyried "yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt."

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ymrwymiad CDL i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau yn bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, wyneb cyhoeddus y sefydliad, gan gynnwys hunaniaeth gorfforaethol, ffurflenni cais, nodiadau arweiniad a'r wefan, y wasg a gweithgarwch marchnata, asesu a monitro ceisiadau, staffio a recriwtio, ac ymarferiadau ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i Gynllun Cydraddoldeb, ac rydym wedi cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog, *Ymgorffori'r iaith Gymraeg yn eich prosiect.*

Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr CGDG o dan Adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Trwy hyn, mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr CGDG ('y Gronfa') yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.

Cyfarwyddiadau mewn Perthynas â Chymru

2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar eu cyfer, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau neu'r benthyciadau a ddyrennir, yn ogystal â'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

- a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan gymryd i ystyriaeth amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.
- b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro

yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

- c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.
- d) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.
- e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru.
- f) Yr angen i roi cyfle i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.
- g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.
- h) Lle bo'n briodol, yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefnidir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny.

* Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Mawrth 2007.

Perfformiad Corfforaethol

Targedau lefel gwasanaeth

perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011

Dangosyddion lefel gwasanaeth	blwyddyn hyd at Mawrth 2011	blwyddyn hyd at Mawrth 2010	blwyddyn hyd at Mawrth 2009
1 Cyhoeddir y penderfyniadau ar wefan CDL o fewn 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod	Diweddarwyd o fewn 10.1 diwrnod ar gyfartaledd	Diweddarwyd o fewn 10 diwrnod ar gyfartaledd	Diweddarwyd o fewn 10.38 diwrnod ar gyfartaledd
2 Cyflwynir y taliadau grant i'r ymgeisydd o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn y cais am daliad ar gyfartaledd	8 diwrnod ar gyfartaledd	8 diwrnod ar gyfartaledd	7 diwrnod ar gyfartaledd
3 Bydd arolwg blyneddol y ceisiadau am grant yn dangos bod 80% yn fodlon ar wasanaeth CDL ar gyfer asesiad, ac 85% ar gyfer monitro	Asesu 80% Monitro 87%	Asesu 76% Monitro 85%	Asesu 80% Monitro 84%
4 Prosesir ceisiadau i CDL o fewn yr amserlenni canlynol:			
Grantiau Treftadaeth			
• rownd gyntaf – ymhen tri mis yn ogystal ag amser tan y cyfarfod nesaf	3.2 mis	3.7 mis	4.3 mis
